# Amddiffyn pobl rhag niwed anghyfreithlon ar-lein

Crynodeb o bob pennod

Cyhoeddwyd 9 Tachwedd 2023

# Cynnwys

## Adran

Trosolwg....................3

Cyfrol 1: Cefndir y drefn Diogelwch Ar-lein newydd (cyflwyniad, dyletswyddau cynnwys anghyfreithlon a throseddau, a throsolwg o wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio)....................5

Cyfrol 2: Achosion ac effeithiau niwed ar-lein....................7

Cyfrol 3: Sut dylai gwasanaethau asesu'r risg o niwed ar-lein?....................10

Cyfrol 4: Sut i liniaru'r risg o niwed anghyfreithlon – Codau Ymarfer ar gynnwys anghyfreithlon....................15

Cyfrol 5: Sut dylid barnu a yw cynnwys yn anghyfreithlon ai peidio?  (Canllawiau Dyfarniadau Cynnwys Anghyfreithlon)....................37

Cyfrol 6: Pwerau casglu gwybodaeth a gorfodi, a'r dull goruchwylio....................39

# Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb lefel uchel o bob pennod o'n hymgynghoriad ar niwed anghyfreithlon i helpu rhanddeiliaid i ddarllen a defnyddio ein dogfen ymgynghori. Mae manylion llawn ein cynigion a'r sail resymegol sylfaenol, yn ogystal â chwestiynau ymgynghori manwl, wedi'u nodi yn y ddogfen lawn. Dyma'r cyntaf o nifer o ymgyngoriadau y byddwn yn eu cyhoeddi o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Mae ein strategaeth a'n map rheoleiddio llawn ar gael ar ein gwefan.

Rydym yn ymgynghori'n gyhoeddus ar y cynigion a nodir yn llawn yn y ddogfen ymgynghori hon. Rydym yn croesawu sylwadau gan randdeiliaid mewn ymateb i'n cynigion, gan gynnwys rhagor o dystiolaeth a gwybodaeth ategol er mwyn cyfrannu at ein penderfyniadau terfynol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut i ymateb i'n hymgynghoriad, ein hegwyddorion ymgynghori a'n cwestiynau ymgynghori manwl yn atodiadau 1-4.

A fyddech cystal ag ymateb i'n hymgynghoriad drwy lenwi'r ffurflen ymgynghori a'i hanfon dros e-bost i'r cyfeiriad hwn: IHconsultation@ofcom.org.uk. Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 23 Chwefror 2024.

## Mynegai


### Cyfrol 1 – Cefndir ein hymgynghoriad ar niwed anghyfreithlon

1. Cyflwyniad

2. Dyletswyddau cynnwys anghyfreithlon a throsolwg o droseddau perthnasol

3. Trosolwg o wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio

### Cyfrol 2 - Achosion ac effeithiau niwed ar-lein

4. Cyflwyniad i gyfrol 2

5. Tystiolaeth a methodoleg ar gyfer cynnal ein hasesiad risg

6. Achosion ac effeithiau niwed ar-lein: Cofrestr risgiau Ofcom

### Cyfrol 3 - Sut dylai gwasanaethau asesu'r risg o niwed ar-lein?

7. Cyflwyniad i gyfrol 3

8. Llywodraethu ac atebolrwydd

9. Asesiad risg gwasanaethau

10. Arweiniad ar gadw cofnodion ac adolygu

## Cyfrol 4 – Beth dylai gwasanaethau ei wneud i leihau'r risg o niwed ar-lein?


11. Trosolwg o gyfrol 4: Codau Ymarfer ar gynnwys anghyfreithlon

12. Cymedroli cynnwys (defnyddiwr-i-ddefnyddiwr)

13. Cymedroli chwilio (chwilio)

14. Cymedroli cynnwys awtomataidd (defnyddiwr-i-ddefnyddiwr)

15. Cymedroli chwilio awtomataidd (Chwilio)

16. Systemau riportio a chwyno i ddefnyddwyr (defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio)

17. Telerau gwasanaeth (defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio)

18. Gosodiadau diofyn a chymorth i ddefnyddwyr (defnyddiwr-i-ddefnyddiwr)

19. Profi systemau argymell (defnyddiwr-i-ddefnyddiwr)

20. Offer defnyddwyr (defnyddiwr-i-ddefnyddiwr)

21. Mynediad defnyddwyr (defnyddiwr-i-ddefnyddiwr)

22. Dylunio gwasanaeth a chymorth i ddefnyddwyr (chwilio)

23. Asesiad Cronnus

24. Profion Atodlen 4


## Cyfrol 5 – Sut dylid barnu a yw cynnwys yn anghyfreithlon ai peidio?


25. Cyflwyniad i gyfrol 5

26. Canllawiau dyfarniadau cynnwys anghyfreithlon


## Cyfrol 6: Ein pwerau gwybodaeth, ein pwerau gorfodi, a'n dull goruchwylio


27. Cyflwyniad i gyfrol 6

28. Pwerau gwybodaeth

29. Pwerau gorfodi

30. Goruchwyliaeth

# Cyfrol 1: Cefndir y drefn Diogelwch Ar-lein newydd

## (cyflwyniad, dyletswyddau o ran cynnwys anghyfreithlon a'r troseddau, a throsolwg o wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio)

### 1. Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn rhoi cyflwyniad manwl i'r ymgynghoriad hwn (ymgynghoriad ar niwed anghyfreithlon) ar roi'r dyletswyddau cynnwys anghyfreithlon a'n pwerau gorfodi ar waith o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 (y 'Ddeddf'). Mae'n amlinellu cwmpas eang yr ymgynghoriad, ein dyletswyddau a'n swyddogaethau diogelwch, ac yn egluro sut i ddefnyddio a chanfod eich ffordd drwy'r ddogfen hon.

### 2. Dyletswyddau cynnwys anghyfreithlon a throsolwg o droseddau perthnasol

Mae'r bennod hon yn crynhoi'r prif ddyletswyddau y mae'r Ddeddf yn eu creu. Mae'r Ddeddf yn rhoi amrywiaeth o ddyletswyddau i wasanaethau ar-lein. Mae'r prif rai sy'n ymwneud â chynnwys anghyfreithlon ar gyfer gwasanaethau i asesu'r risg o niwed sy'n deillio o gynnwys anghyfreithlon (ar gyfer gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr neu weithgaredd ar eu gwasanaeth, a chymryd camau cymesur i reoli a lliniaru'r risgiau hynny.

Mae'r Ddeddf yn rhestru dros 130 o 'droseddau blaenoriaeth'. Bydd angen i wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr weithredu i atal defnyddwyr rhag dod ar draws cynnwys sy'n cyfateb i un o'r troseddau hyn a bydd angen i wasanaethau chwilio leihau'r risg o ddefnyddwyr yn dod ar draws cynnwys sy'n cyfateb i un o'r troseddau hyn. Rydym wedi grwpio'r troseddau hyn yn grwpiau eang, fel terfysgaeth, casineb, cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, camfanteisio'n rhywiol ar oedolion, mewnfudo anghyfreithlon a masnachu pobl.

Mae ar wasanaethau hefyd ddyletswyddau i dynnu mathau penodol o gynnwys anghyfreithlon nad yw'n flaenoriaeth i lawr yn gyflym.

### 3. Trosolwg o wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio

**Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?**

Mae'r bennod hon yn egluro pa fathau o wasanaethau sydd o fewn cwmpas y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn gosod gofynion cyfreithiol newydd ar ddarparwyr y tri math canlynol o wasanaeth rhyngrwyd: gwasanaethau sy'n caniatáu rhyngweithio rhwng defnyddwyr neu gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr; gwasanaethau chwilio; a darparwyr cynnwys pornograffig.

Mae'r dyletswyddau yn y Ddeddf yn berthnasol i wasanaethau sydd â chysylltiadau â'r DU ni waeth ble yn y byd y maent wedi'u lleoli. Gallai nifer y gwasanaethau ar-lein sy'n destun rheoleiddio fod yn fwy na 100,000 ac amrywio o rai o'r cwmnïau technoleg mwyaf yn y byd i wasanaethau bach iawn. Mae'r

gwasanaethau sydd o fewn cwmpas y Ddeddf yn dod o amrywiaeth eang o sectorau, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, gwasanaethau cwrdd â chariad, chwarae gemau a gwasanaethau oedolion, ond nid y rhain yn unig.

Mae'r byd ar-lein yn arloesi'n gyflym. Gwyddom y bydd mathau newydd o wasanaethau chwilio a defnyddiwr-i-ddefnyddiwr yn dod i'r amlwg, gyda deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn enghraifft ddiweddar dda o hyn.

Mae gan hyn nifer o oblygiadau i'n gwaith:

- Yn gyntaf, byddwn yn addasu ein disgwyliadau yn dibynnu ar y math o wasanaeth rydym yn delio ag ef – ni fydd ein disgwyliadau yng nghyswllt gwasanaeth bychan, risg isel yr un fath â'r gwasanaethau mwyaf neu'r rhai sy'n cynnwys y mwyaf o risg.
- Yn ail, bydd angen i ni addasu ein dull gweithredu a'n disgwyliadau dros amser i adlewyrchu technolegau newydd a mathau o wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr neu chwilio sy'n datblygu. Byddwn yn sganio'r gorwel am ddatblygiadau newydd a, phan fydd angen, byddwn yn diweddaru ein codau i adlewyrchu risgiau newydd sy'n codi ac opsiynau newydd ar gyfer lliniaru risgiau. Fel rydym yn egluro isod, byddwn hefyd yn disgwyl i wasanaethau fonitro risgiau newydd sy'n dod i'r amlwg.
- Yn drydydd, fel y disgrifir yn ein hadran ar y cefndir[1], bydd angen i ni ddefnyddio cyfuniad o ddulliau rheoleiddio gwahanol i gyflawni ein nodau a defnyddio gwahanol ddulliau i ddylanwadu ar wahanol fathau o wasanaethau. Er enghraifft, weithiau byddwn yn ceisio sbarduno newid drwy: osod disgwyliadau yn ein codau ymarfer; cymryd camau gorfodi yn erbyn gwasanaethau nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliadau; defnyddio ein hymchwil a'n pwerau adrodd ar dryloywder i daflu goleuni ar yr hyn mae gwasanaethau'n ei wneud i fynd i'r afael â niwed ar-lein a chreu cymhellion o ran enw da iddynt wneud gwelliannau; a chysylltu â gwasanaethau a thrafod â nhw pan fyddwn yn credu y dylent fod yn gwneud mwy i wella diogelwch defnyddwyr.

[1] Darllenwch y ddogfen o'r enw "Ymagwedd Ofcom at weithredu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein" am ragor o fanylion.

# Cyfrol 2: Achosion ac effeithiau niwed ar-lein

## 4. Cyflwyniad i gyfrol 2

Yn y gyfrol hon, rydym yn nodi ein dealltwriaeth o achosion ac effeithiau niwed ar-lein. Rydym yn egluro sut rydym wedi llunio ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer ein hasesiad risg ar draws y sector, yn nodi ein canfyddiadau allweddol ac yn manylu ar y dadansoddiad o'n hasesiad risg ar draws y sector yn ein 'Cofrestr Risgiau'.

## 5. Tystiolaeth a methodoleg ar gyfer cynnal ein hasesiad risg

Mae'r bennod hon yn egluro sut rydym wedi cynnal y dadansoddiad o'n hasesiad risg ar draws y sector (a gyflwynir yn y 'Gofrestr Risgiau'), gan gynnwys y dystiolaeth a ddefnyddiwyd, y troseddau a ystyriwyd a'r ffactorau risg a ddadansoddwyd. Mae'r bennod hon hefyd yn edrych ar yr ystyriaethau sy'n gysylltiedig ag asesu'r risg o niwed i unigolion.

## 6. Achosion ac effeithiau niwed ar-lein: Cofrestr risgiau Ofcom

Mae'r bennod hon yn cyflwyno ein hasesiad o achosion ac effeithiau niwed ar-lein anghyfreithlon ar sail y dystiolaeth rydym wedi'i chasglu dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r dadansoddiad a nodir yma yn rhan o'n dyletswydd o dan y Ddeddf i asesu'r ffactorau sy'n gallu achosi risg o niwed i unigolion ar wasanaeth. Rydym yn disgwyl i wasanaethau gyfeirio ato pan fyddant yn cynnal eu hasesiadau risg eu hunain. Mae ein hasesiad yn canolbwyntio ar y 130 o droseddau blaenoriaeth a mwy a ddiffinnir yn y Ddeddf. Er hwylustod, rydym wedi grwpio'r rhain yn 15 math eang o niwed anghyfreithlon. Mae'r rhain yn cynnwys niwed anghyfreithlon fel: Cam-drin a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, terfysgaeth, twyll ac iaith casineb, yn ogystal â'r Drosedd Ymyriant Tramor sydd newydd ei chreu i fynd i'r afael â gweithgarwch ar-lein maleisus a gynhelir gan bwerau tramor (er enghraifft, ymgyrchoedd twyllwybodaeth a noddir gan y wladwriaeth). Rydym yn crynhoi canfyddiadau'r asesiad hwn isod ac yn nodi'r dadansoddiad manwl yng nghorff y gyfrol hon.

Mae'r niwed anghyfreithlon rydym wedi'i ystyried yn digwydd yn eang ac, mewn llawer o achosion, yn cynyddu o ran nifer. Er enghraifft, mae 87% o oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn dweud eu bod wedi dod ar draws sgam neu dwyll ar-lein ac mae 25% o'r bobl hyn wedi colli arian o ganlyniad i hynny. Mae bron i un o bob pump o blant yn cael eu llithio'n rhywiol gan oedolion maen nhw wedi sgwrsio â nhw ar-lein, ac roedd cynnydd o 707% yn nifer y Lleolwyr Adnoddau Unffurf (URLs) sy'n cynnwys Deunydd Cam-drin Plant yn Rhywiol (CSAM) a adroddwyd i'r IWF rhwng 2014 a 2021.

Mae niwed ar-lein yn effeithio ar gyfran fawr o bobl yn y DU ac ar drawstoriad eang o gymdeithas. Dywed 63% o ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU eu bod wedi dod ar draws cynnwys a allai fod yn niweidiol ar-lein yn ystod y pedair wythnos diwethaf. Fodd bynnag, plant a phobl sydd â nodweddion gwarchodedig penodol sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio. Er enghraifft, mae 16% o ddefnyddwyr rhyngrwyd o leiafrifoedd ethnig wedi dod ar draws 'cynnwys annymunol, sarhaus neu wahaniaethol', o gymharu ag 11% o holl ddefnyddwyr y rhyngrwyd. Yn yr un modd, mae astudiaethau wedi dangos bod menywod bum gwaith yn fwy tebygol o ddioddef cam-drin delweddau personol. Po fwyaf o nodweddion gwarchodedig sydd gan rywun, y mwyaf yw eu risg o wynebu niwed anghyfreithlon blaenoriaeth yn y Ddeddf.

Gall effaith y niwed rydym wedi'i ystyried fod yn ddifrifol iawn. Nid yw wedi'i gyfyngu i'r byd ar-lein - gall hefyd effeithio'n sylweddol ar fywydau pobl all-lein. Enghraifft amlwg o hyn yw meithrin perthynas amhriodol ar-lein, sy'n gallu arwain at gam-drin rhywiol cyswllt ac achosi effeithiau seicolegol negyddol gydol oes gan gynnwys colli hyder, ymddygiad ymosodol, teimladau o hunan-feio a diffyg ymddiriedaeth bersonol, yn ogystal â mwy o risg o hunan-niweidio. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r niwed rydym wedi'i ystyried yn effeithio'n bennaf ar yr unigolyn sy'n ei brofi. Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae'n cael effaith ehangach ar gymdeithas yn gyffredinol. Er enghraifft, gall ymgyrchoedd twyllwybodaeth a noddir gan y wladwriaeth chwalu ymddiriedaeth yn y broses ddemocrataidd. Mae hyn i gyd yn tanlinellu'r ffaith bod angen y ddeddfwriaeth newydd ac mae'n dangos, er bod llawer o wasanaethau wedi buddsoddi'n sylweddol i fynd i'r afael â niwed ar-lein yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nad yw'r rhain wedi bod yn ddigonol eto.

Mae'r mathau o niwed anghyfreithlon rydym wedi'u hystyried yn digwydd ar wasanaethau o bob math. Mae gwasanaethau mor amrywiol â gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol, gwasanaethau cwrdd â chariad, marchnadoedd a gwasanaethau rhestru, gwasanaethau chwilio, gwasanaethau oedolion, a gwasanaethau storio ffeiliau a rhannu ffeiliau i gyd yn cael eu defnyddio i ledaenu rhai o'r mathau o gynnwys niweidiol rydym wedi edrych arnynt yn y gyfrol hon. Mae actorion gwael yn defnyddio gwasanaethau mawr a bach i ledaenu cynnwys anghyfreithlon, er bod y ffordd maen nhw'n defnyddio gwasanaethau mawr weithiau'n wahanol i'r ffordd maen nhw'n defnyddio gwasanaethau bach. Er enghraifft, mae terfysgwyr yn aml yn defnyddio gwasanaethau mawr i ddosbarthu propaganda i gynulleidfaoedd mawr, ond yn aml maent yn defnyddio gwasanaethau bach ar gyfer gweithgareddau mwy cudd fel recriwtio, cynllunio a chodi arian. Yn gysylltiedig â hyn, mae troseddwyr yn aml yn dibynnu ar nifer o wahanol fathau o wasanaethau i gyflawni neu hwyluso'r troseddau sy'n dod o dan y Ddeddf. Er enghraifft, bydd twyllwyr a'r rheini sy'n meithrin perthynas amhriodol yn aml yn cysylltu â dioddefwyr posibl ar fforymau cyhoeddus ac yna'n ceisio eu symud ymlaen i wasanaethau preifat wedi'u hamgryptio. Mae hyn yn golygu na all camau gweithredu i fynd i'r afael â niwed ar-lein ganolbwyntio ar is-set fach o wasanaethau yn unig ac ni ellir eu targedu at y gwasanaethau mwyaf yn unig. Yn hytrach, mae angen iddynt fynd i'r afael â gwasanaethau o bob math, gan gynnwys gwasanaethau mawr a'r rhestr hirfaith o wasanaethau llai sydd o fewn cwmpas y Ddeddf.

Er bod amrywiaeth eang iawn o fathau o wasanaethau yn peri risgiau o'r niwed anghyfreithlon blaenoriaeth yn y Ddeddf, mae'n ymddangos bod rhai mathau o wasanaethau yn chwarae rhan amlwg iawn yn y gwaith o ledaenu cynnwys anghyfreithlon blaenoriaeth. Yn benodol, mae ein dadansoddiad yn awgrymu bod gwasanaethau storio ffeiliau a rhannu ffeiliau a gwasanaethau oedolion yn peri risg uchel iawn o ledaenu CSAM, a bod gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol yn chwarae rhan wrth ledaenu ystod hynod eang o niwed anghyfreithlon. Yn yr un modd, mae rhai 'swyddogaethau' yn sefyll allan fel rhai sy'n peri risgiau penodol:

- **Amgryptiad o'r naill ben i'r llall:** Mae troseddwyr yn aml yn defnyddio gwasanaethau wedi'u hamgryptio o'r naill ben i'r llall i osgoi cael eu canfod. Er enghraifft, gall amgryptio o'r naill ben i'r llall alluogi pobl i gylchredeg CSAM, cymryd rhan mewn twyll a lledaenu cynnwys terfysgol gyda llai o risg o gael eu canfod.
- **Ffugenwau ac anhysbysrwydd:** Mae rhywfaint o dystiolaeth bod defnyddio ffugenw (lle mae hunaniaeth person yn cael ei chuddio rhag eraill drwy ddefnyddio enwau eraill) ac anhysbysrwydd yn gallu annog troseddwyr i ymddwyn mewn nifer o ffyrdd niweidiol heb ofni'r canlyniadau gymaint. Er enghraifft, er bo'r dystiolaeth yn cael ei herio, mae rhai astudiaethau'n awgrymu y gall ffugenwau ac anhysbysrwydd annog pobl i ddefnyddio iaith casineb. Ar yr un pryd, mae achosion o aflonyddu a stelcian yn aml yn golygu bod drwgweithredwyr yn creu nifer o broffiliau defnyddwyr ffug i gysylltu ag unigolion yn erbyn eu hewyllys ac i osgoi blocio a chymedroli.

- **Ffrydio byw:** Mae llawer o enghreifftiau o ymosodiadau ffrydio byw gan derfysgwyr. Gall hyn, yn ei dro, ysgogi rhagor o drais. Mae defnyddio ffrydio byw yn dal yn nodwedd barhaus a ddefnyddir gan ymosodwyr unigol adain dde eithafol, y mae llawer ohonynt yn copïo ac yn cyfeirio'n uniongyrchol at agweddau ar ymosodiadau blaenorol. Yn yr un modd, gall cyflawnwyr gamfanteisio ar swyddogaeth ffrydio byw pan fyddant yn cam-drin plant ar-lein. Er enghraifft, gellir defnyddio ffrydio byw fel ffordd o gam-drin plant yn rhywiol drwy ddirprwy, lle mae plant yn cael eu cymell i gam-drin eu hunain neu blant eraill mewn amser real ar gamera.
- **Systemau argymell:** Mae systemau argymell yn cael eu dylunio fel arfer i sicrhau'r ymgysylltiad gorau posibl â defnyddwyr ac i ddysgu am ddewisiadau defnyddwyr. Pan fydd defnyddwyr yn ymgysylltu â chynnwys niweidiol fel iaith casineb neu gynnwys sy'n hyrwyddo hunanladdiad, mae risg y gallai hyn arwain at fwy byth o'r cynnwys hwn yn cael ei gyflwyno iddynt.

Rydym yn disgwyl i wasanaethau feddwl am y ffactorau risg hyn wrth gynnal eu hasesiadau risg (gweler Cyfrol 3). Fel rydym yn egluro yng Nghyfrol 4, rydym wedi dylunio nifer o'r mesurau yn ein Codau Ymarfer i dargedu swyddogaethau a mathau o wasanaethau risg uchel.

Nid yw'r swyddogaethau a ddisgrifir uchod yn rhai drwg yn eu hanfod ac mae iddynt fanteision pwysig. Mae amgryptio o'r naill ben i'r llall yn chwarae rhan bwysig o ran diogelu preifatrwydd ar-lein. Gall ffugenwau ac anhysbysrwydd alluogi pobl i fynegi eu hunain ac ymgysylltu'n rhydd ar-lein. Yn benodol, gall anhysbysrwydd fod yn bwysig i grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio'n hanesyddol fel aelodau o'r gymuned LHDTC+ sy'n dymuno siarad yn agored am eu rhywioldeb neu archwilio hunaniaeth o ran rhywedd heb ofni gwahaniaethu neu aflonyddu. Mae systemau argymell o fudd i ddefnyddwyr y rhyngrwyd drwy eu helpu i ddod o hyd i gynnwys sy'n ddiddorol ac yn berthnasol iddynt. Nid rôl y rheoliadau diogelwch ar-lein newydd yw cyfyngu ar swyddogaethau o'r fath na gwahardd pobl rhag eu defnyddio, ond yn hytrach cael gwasanaethau i roi mesurau diogelu ar waith sy'n caniatáu i ddefnyddwyr fwynhau'r manteision maen nhw'n eu cynnig wrth reoli'r risgiau'n briodol.

Mae niwed ar-lein a'r ffactorau risg sy'n ei achosi yn newid drwy'r amser wrth i dechnoleg ddatblygu ac wrth i gymdeithas esblygu. Mae'r ffaith bod deallusrwydd artiffisial wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar yn enghraifft glir o hyn. Yn ogystal â dod â manteision pwysig, mae deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn creu risgiau newydd. Gellir defnyddio modelau cynhyrchu delweddau, er enghraifft, mewn rhai achosion i greu deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol. Mae astudiaethau hefyd wedi tynnu sylw at y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i greu 'ffugiad dwfn' i gefnogi ymgyrchoedd ymyriant tramor. Maent hefyd wedi cael eu defnyddio i gynhyrchu cyfarwyddiadau ar sut i gael gafael ar arfau tanio didrwydded, a sut i wneud deunyddiau ffrwydrol.

Mae'r ffaith bod risgiau newydd yn dod i'r amlwg yn gyson yn golygu ei bod yn bwysig bod gwasanaethau'n cynnal asesiadau risg rheolaidd. Mae hefyd yn gwneud llywodraethu corfforaethol cadarn yn arbennig o bwysig. Pan fydd gan wasanaethau drefniadau llywodraethu da gydag atebolrwydd clir dros reoli risgiau, maent yn fwy tebygol o ganfod a rheoli'n briodol risgiau sy'n codi. Yn ogystal ag argymell mesurau i fynd i'r afael â niwed penodol, un o'r pethau y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn bennaf wrth i ni ymgymryd â'n rôl newydd fydd sicrhau bod gwasanaethau'n cynnal asesiadau risg cadarn a bod ganddynt drefniadau llywodraethu priodol ar waith. Rydym yn trafod hyn ymhellach yng Nghyfrol 3.

## Pa fewnbwn rydym eisiau ei gael gan randdeiliaid?

- Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar asesiad Ofcom o achosion ac effeithiau niwed ar-lein? Ydych chi'n meddwl ein bod ni wedi hepgor unrhyw beth pwysig yn ein dadansoddiad? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb.
- Oes gennych chi unrhyw farn am ein dehongliad o'r cysylltiadau rhwng ffactorau risg a gwahanol fathau o niwed anghyfreithlon? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb.

# Cyfrol 3: Sut dylai gwasanaethau asesu'r risg o niwed ar-lein?

## 7. Cyflwyniad i gyfrol 3

Yn y gyfrol hon, rydym yn egluro ein cynigion ynghylch pa ddulliau llywodraethu dylai gwasanaethau eu rhoi ar waith i reoli risg, beth ddylai gwasanaethau ei wneud i asesu'r risg o niwed anghyfreithlon, a sut gallant gyflawni eu dyletswyddau o ran cadw cofnodion ac adrodd.

## 8. Llywodraethu ac atebolrwydd

### Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Mae prosesau llywodraethu ac atebolrwydd yn allweddol i allu gwasanaethau i nodi a rheoli risgiau diogelwch ar-lein yn briodol.

Mae'r bennod hon yn nodi ein hargymhellion arfaethedig ynghylch sut dylai gwasanaethau fynd ati i lywodraethu a sicrhau atebolrwydd mewn perthynas â'u dyletswyddau cynnwys anghyfreithlon o dan y Ddeddf. Mae'n cynnwys mesurau sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu; atebolrwydd a chyfrifoldeb uwch swyddogion; swyddogaethau sicrwydd a chydymffurfio mewnol; a pholisïau ac arferion staff.

Er mwyn bod yn gymesur, rydym yn cynnig bod y rhan fwyaf o fesurau yn berthnasol i wasanaethau mawr a/neu aml-risg yn unig.[2] Fodd bynnag, rydym yn cynnig bod y gofyniad sy'n mynnu bod yn rhaid cael uwch swyddog atebol yn berthnasol i bob gwasanaeth (gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio).

### Beth rydym yn ei gynnig?

Rydym yn gwneud y cynigion canlynol ar gyfer pob gwasanaeth:

- Enwi unigolyn sy'n atebol i'r corff llywodraethu uchaf mewn perthynas â'u cydymffurfiaeth â dyletswyddau cynnwys anghyfreithlon a dyletswyddau adrodd a chwynion.

Rydym yn gwneud y cynigion canlynol ar gyfer pob gwasanaeth aml-risg a phob gwasanaeth mawr[3]:

- Datganiadau ysgrifenedig o gyfrifoldebau uwch aelodau o staff sy'n gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â rheoli risgiau diogelwch ar-lein.
- **Olrhain tystiolaeth o fathau newydd o gynnwys anghyfreithlon ar eu gwasanaethau, a chynnydd anarferol mewn mathau penodol o gynnwys anghyfreithlon**, a rhoi gwybod am y dystiolaeth hon drwy'r sianeli llywodraethu perthnasol. Dylai gwasanaethau defnyddiwr-i-

[2] I gael rhagor o fanylion, edrychwch ar y Cyflwyniad i Gyfrol 4, lle rydym yn diffinio gwasanaethau 'mawr' ac 'aml-risg'.

[3] Ac eithrio gwasanaethau chwilio fertigol mawr. Y rheswm am hyn yw nad ydym yn ymwybodol o dystiolaeth o wasanaethau o'r fath yn dangos cynnwys anghyfreithlon ac, oherwydd eu natur, mae'n annhebygol y bydd gan wasanaethau chwilio fertigol gynnwys sy'n newid mor gyflym â gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr ac mae'r canlyniadau chwilio dan eu rheolaeth fwy o gymharu â chynnwys defnyddiwr-i-ddefnyddiwr. Rydym hefyd yn cynnig eithrio chwilio fertigol o'r mesur sy'n ymwneud ag adrodd yn flynyddol i'r corff llywodraethu uchaf, am yr un rhesymau.

ddefnyddiwr hefyd olrhain newidiadau cyfatebol yn y defnydd o'r gwasanaeth, ac adrodd arnynt, ar gyfer cyflawni neu hwyluso **troseddau blaenoriaeth**.

- Cod Ymddygiad sy'n gosod safonau a disgwyliadau ar gyfer gweithwyr o ran amddiffyn defnyddwyr rhag risgiau o niwed anghyfreithlon.
- Bod staff sy'n rhan o'r gwaith o gynllunio a rheoli'r gwasanaeth yn weithredol wedi cael hyfforddiant digonol ar agwedd y gwasanaeth at gydymffurfio.

Rydym hefyd yn gwneud y cynigion canlynol ar gyfer gwasanaethau mawr:

- Dylai'r corff sydd ar y lefel uchaf mewn perthynas â'r gwasanaeth gynnal a chofnodi adolygiad blynyddol o weithgareddau rheoli risg mewn perthynas â diogelwch ar-lein, a sut mae risgiau llywodraethu sy'n datblygu yn cael eu monitro a'u rheoli.
- Dylai gwasanaethau aml-risg mawr fod â swyddogaeth monitro a sicrwydd fewnol[4] i roi sicrwydd annibynnol bod y mesurau a gymerir i liniaru a rheoli'r risg o niwed i unigolion a nodir yn yr asesiad risg yn effeithiol yn barhaus, gan adrodd i gorff llywodraethu cyffredinol neu bwyllgor archwilio.

## Pam rydym yn cynnig hyn?

Mae prosesau llywodraethu cadarn yn ffordd effeithiol o sicrhau bod risg yn cael ei rheoli'n dda, ac felly rydym yn disgwyl y bydd mabwysiadu prosesau llywodraethu o'r fath yn eang yn gwneud cyfraniad sylweddol at leihau niwed ar-lein. Er ei bod yn bosibl y bydd costau sylweddol mewn rhai meysydd, rydym o'r farn bod llywodraethu da yn ddigon pwysig a buddiol i gyfiawnhau'r costau hyn. Rydym hefyd o'r farn y bydd costau defnyddio dulliau llywodraethu da i atal risgiau rhag dod i'r amlwg yn aml yn llai sylweddol na'r costau y byddai gwasanaethau'n eu hwynebu wrth unioni risgiau sydd eisoes wedi dod i'r amlwg. Bydd targedu nifer o'r mesurau hyn mewn gwasanaethau mawr a/neu aml-risg yn unig yn helpu i sicrhau nad yw hyn yn arwain at fwy o gostau na sydd rhaid i wasanaethau sydd â risg isel o niwed ar-lein. Bydd gan lawer o'r gwasanaethau yr ydym yn eu targedu drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd sy'n bodoli'n barod a all ddarparu ar gyfer yr argymhellion hyn.

Nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion eto ynghylch gofynion archwilio allanol, nac ynghylch cysylltu taliadau a thaliadau bonws â chanlyniadau diogelwch ar-lein oherwydd cyfyngiadau mewn tystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd sy'n dangos effeithiolrwydd a chostau'r cynigion hyn.

Mae'r cynigion ar gyfer sefydliadau sy'n gweithredu gwasanaethau mawr wedi'u cynllunio i fod yn gyson â gweithredu model llywodraethu 'tair llinell o amddiffyniad', a gellir eu mapio'n hawdd i'r llinell gyntaf (rheoli), yr ail linell (rheoli risg a chydymffurfio) a'r drydedd linell o amddiffyniad (archwiliad mewnol).

## Pa fewnbwn rydym eisiau ei gael gan randdeiliaid?

- Ydych chi'n cytuno â'n cynigion mewn perthynas â mesurau atebolrwydd a llywodraethu yn y Codau Ymarfer ar gynnwys anghyfreithlon? Rhowch ddadleuon sylfaenol a thystiolaeth o effeithiolrwydd neu risgiau i gefnogi eich barn.
- Ydych yn cytuno â'r mathau o wasanaethau yr ydym yn cynnig y dylai'r mesurau atebolrwydd a llywodraethu fod yn berthnasol iddynt?

[4] Lle bo'n briodol, gallai hyn gael ei gyflawni gan swyddogaeth archwilio mewnol bresennol.

- Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw dystiolaeth ychwanegol o'r effeithiolrwydd, y costau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â mesur posibl yn y dyfodol i fynnu bod gan wasanaethau fesurau i liniaru a rheoli risgiau cynnwys anghyfreithlon sy'n cael eu harchwilio gan drydydd parti annibynnol?
- Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw dystiolaeth ychwanegol o'r effeithiolrwydd, y costau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â mesur posibl yn y dyfodol i gysylltu tâl uwch reolwyr â chanlyniadau diogelwch ar-lein cadarnhaol?

# 9. Asesiad risg gwasanaethau

## Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Mae'r bennod hon yn rhoi sylw i'n canllawiau ar sut gall gwasanaethau gyflawni eu dyletswyddau i asesu risgiau (y 'Canllawiau Asesu Risg'), gan gynnwys ein cynigion ar gyfer y broses y dylai gwasanaethau ei dilyn wrth gynnal eu hasesiad risg a'r mathau o dystiolaeth y dylent eu hystyried.

## Beth rydym yn ei gynnig?

Rydym yn gwneud y cynigion canlynol ar gyfer pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio:

- Byddwn yn arwain gwasanaethau i ddilyn proses asesu risg pedwar cam fel y ffordd orau o sicrhau bod eu hasesiadau'n 'addas ac yn ddigonol'. Dyma'r pedwar cam: (i) deall y niwed y mae angen ei asesu; (ii) asesu risgiau drwy ystyried y tebygolrwydd y bydd niwed yn digwydd ac effaith bosibl niwed ar eu gwasanaeth; (iii) gweithredu mesurau diogelwch a chofnodi canlyniadau'r asesiad risg; ac (iv) adrodd, adolygu a diweddaru'r asesiad risg.
- Byddwn yn darparu tablau sy'n rhestru ffactorau risg, sy'n egluro pa niwed mae'r ffactorau risg hyn yn gysylltiedig ag ef a sut mae'r rhain yn cynyddu'r risg o niwed. Rydym yn galw'r rhain yn 'Broffiliau Risg'. Dylai gwasanaethau edrych ar y tablau hyn wrth gynnal eu hasesiad risg. Mae'r wybodaeth mewn proffiliau risg yn cael ei thynnu o'n hasesiad o achosion ac effaith niwed (gweler uchod).
- **Byddwn yn arwain pob gwasanaeth i ystyried y dystiolaeth ganlynol wrth gynnal eu hasesiad risg:** Proffiliau Risg (a rhannau perthnasol o Gofrestr Risgiau Ofcom), adroddiadau gan ddefnyddwyr, cwynion gan ddefnyddwyr, data defnyddwyr gan gynnwys oedran (lle bo hynny'n berthnasol), dadansoddiad ôl-weithredol o ddigwyddiadau o niwed a gwybodaeth berthnasol arall sydd gan wasanaeth.
- Lle nad yw'r dystiolaeth hon yn rhoi dealltwriaeth ddigon da i wasanaethau o'u lefelau risg, bydd Ofcom yn argymell bod gwasanaethau'n edrych ar rai neu bob un o'r darnau canlynol o dystiolaeth ychwanegol: canlyniadau profi cynnyrch, canlyniadau systemau safoni cynnwys, ymgynghori ag arbenigwyr mewnol ar risgiau a mesurau diogelwch, barn arbenigwyr annibynnol, ymchwil a gomisiynwyd yn fewnol ac yn allanol, canlyniadau archwiliadau allanol neu brosesau sicrwydd risg eraill, ymgynghori â defnyddwyr ac ymchwil defnyddwyr, ac ymgysylltu â grwpiau cynrychioliadol perthnasol.
- **Byddwn yn argymell bod gan wasanaethau bolisi ysgrifenedig ar waith i adolygu eu hasesiad o leiaf bob 12 mis,** ac i enwi person cyfrifol ar gyfer goruchwylio'r broses hon (mae hyn yn gysylltiedig â'r mesurau llywodraethu yng Nghod Ymarfer Ofcom).
- Byddwn yn argymell bod gwasanaethau'n diweddaru eu hasesiad risg pryd bynnag y bydd 'newid sylweddol' i'w gwasanaeth, a byddwn yn darparu egwyddorion cyffredinol ar sut y dylai gwasanaethau ddehongli'r hyn sy'n gyfystyr â newid sylweddol. Bydd yr egwyddorion hyn yn cydnabod pwysigrwydd maint gwasanaeth wrth ystyried a allai newid arfaethedig fod yn 'sylweddol'.

### Pam rydym yn cynnig hyn?

Mae'r dull hwn yn adlewyrchu ein dealltwriaeth o'r arferion gorau a'r safonau presennol o ran rheoli risg, ac mae'n adlewyrchu prosesau asesu risg sydd wedi cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus mewn sectorau eraill. Fel yr esboniwyd uchod, rydym yn credu y bydd asesu a rheoli risg yn dda yn gwneud cyfraniad sylweddol at leihau niwed ar-lein ac y bydd costau adnabod a rheoli risgiau ymlaen llaw yn aml yn is na chostau unioni niwed ar-lein ar ôl y ffaith. Mae'r dull hwn yn debygol o ategu unrhyw system rheoli risg sydd eisoes ar waith gan wasanaethau, a fydd yn lleihau costau ein cynigion ac yn sicrhau eu bod yn gymesur.

### Pa fewnbwn rydym eisiau ei gael gan randdeiliaid?

- Ydych chi'n cytuno â'n cynigion? Darparwch y dadleuon a'r dystiolaeth sylfaenol sy'n sail i'ch barn.

Yn benodol, byddem hefyd yn gwerthfawrogi tystiolaeth gan **wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio** ar y canlynol:

- Ydych chi'n credu bod y broses asesu risg pedwar cam a'r Proffiliau Risg yn fodelau defnyddiol i helpu gwasanaethau i lywio a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau ehangach o dan y Ddeddf?
- Ydy'r Proffiliau Risg yn ddigon clir ac a ydych yn credu y bydd y wybodaeth a ddarperir am ffactorau risg yn eich helpu i ddeall y risgiau ar eich gwasanaeth?[5]

## 10. Arweiniad ar gadw cofnodion ac adolygu

### Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Mae gan ddarparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio sy'n cael eu rheoleiddio ddyletswyddau i wneud a chadw cofnodion ysgrifenedig o'u hasesiadau risg a'r mesurau maen nhw'n eu cymryd i gydymffurfio â nifer o ddyletswyddau sydd wedi'u nodi yn y Ddeddf, yn ogystal ag adolygu'n rheolaidd sut maen nhw'n cydymffurfio â'r dyletswyddau perthnasol a nodir yn y Ddeddf. Mae'r bennod hon yn cyflwyno ein canllawiau arfaethedig ynghylch sut gall gwasanaethau gyflawni'r dyletswyddau hyn.

### Beth rydym yn ei gynnig?

Rydym yn gwneud y cynigion canlynol ar gyfer pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio:

- Gellir gwneud cofnodion ysgrifenedig a'u cadw ar ffurf cyfrwng parhaol o ddewis y gwasanaeth.
- Lle bo hynny'n rhesymol ymarferol, dylid cadw cofnodion ysgrifenedig yn Saesneg (neu ar gyfer gwasanaethau yng Nghymru), yn Gymraeg neu'n Saesneg.
- Caiff cofnodion ysgrifenedig eu hysgrifennu mewn iaith mor syml a chlir â phosibl.
- Rhaid cadw cofnod ysgrifenedig o'r asesiadau risg cyfredol a'r mesurau cydymffurfio, a rhaid ei ddiweddaru pryd bynnag y caiff newid sylweddol ei wneud.
- Bydd gofynion cadw cofnodion ychwanegol os bydd y gwasanaeth yn cymryd mesurau amgen i'r rheini sydd wedi'u nodi yng Nghod Ymarfer Ofcom.

---

[5] Os oes gennych chi sylwadau neu fewnbwn sy'n ymwneud â'r cysylltiadau rhwng gwahanol fathau o niwed anghyfreithlon a ffactorau risg, cyfeiriwch at Gyfrol 2: Pennod 5 - Crynodeb o achosion ac effeithiau niwed ar-lein).

- Dylid cadw cofnodion ysgrifenedig yn unol â pholisïau cadw cofnodion y gwasanaeth, neu am o leiaf bum mlynedd, pa bynnag un yw'r hiraf.
- Dylai adolygiadau gael eu trefnu gan wasanaethau a'u cynnal ar amlder sy'n caniatáu ar gyfer cylch parhaus o weithredu, monitro ac adolygu.
- **Rydym yn disgwyl y bydd gwasanaethau'n cynnal adolygiad cydymffurfio o leiaf unwaith y flwyddyn,** ond efallai y bydd adolygiadau amlach yn briodol os bydd y gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio yn dod yn ymwybodol o bryderon ynglŷn â chydymffurfio neu'n rhoi mesurau newydd ar waith. Dylai gwasanaethau hefyd gynnal adolygiad cydymffurfio os oes newid sylweddol i unrhyw agwedd ar ddyluniad neu weithrediad y gwasanaeth.

Nid ydym yn cynnig defnyddio ein pŵer i eithrio disgrifiadau penodol o wasanaethau o'r ddyletswydd cadw cofnodion ac adolygu.

## Pam rydym yn cynnig hyn?

Mae ein canllawiau arfaethedig yn ceisio sicrhau cydbwysedd cymesur rhwng: darparu ar gyfer yr amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n cael eu cynnwys yn y canllawiau; yr angen i Ofcom gael cofnodion ysgrifenedig hawdd eu deall, clir a manwl; a lleihau unrhyw gost neu faich diangen ar wasanaethau.

## Pa fewnbwn rydym eisiau ei gael gan randdeiliaid?

- Oes gennych unrhyw sylwadau ar ein canllawiau drafft ar gadw cofnodion ac adolygu?
- Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i beidio â defnyddio ein pŵer i eithrio disgrifiadau penodol o wasanaethau o'r ddyletswydd cadw cofnodion ac adolygu ar hyn o bryd?

# Cyfrol 4: Sut i liniaru'r risg o niwed anghyfreithlon – Codau Ymarfer ar gynnwys anghyfreithlon

## 11. Cyflwyniad i gyfrol 4: Ein dull gweithredu ynghylch y Codau Ymarfer ar gynnwys anghyfreithlon

### Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Mae'r gyfrol hon yn canolbwyntio ar y camau rydym yn cynnig argymell y dylai gwasanaethau eu cymryd i liniaru'r risg o niwed anghyfreithlon. Mae'r argymhellion hyn yn cael eu cofnodi yn ein Codau Ymarfer ar gynnwys anghyfreithlon ('Codau'). Mae'r bennod hon yn disgrifio'r dull gweithredu y bwriadwn ei fabwysiadu wrth ddatblygu'r Codau. Mae'r penodau dilynol yn y gyfrol hon yn disgrifio'r mesurau penodol rydym yn cynnig eu cynnwys yn y Codau.[6]

Mae ein hargymhellion arfaethedig ar gyfer Codau yn cwmpasu meysydd craidd sy'n cwmpasu pob maes o ddylunio, gweithredu a defnyddio gwasanaeth o fewn y cwmpas. Rydym yn cynnig Codau ar wahân ar gyfer pob un o wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio, gyda rhai mesurau'n gyffredin i'r ddau.[7]

Credwn fod y Codau cyntaf hyn yn sail gref ar gyfer adeiladu cyfres fwy cynhwysfawr o fesurau a argymhellir i leihau'r risg o niwed i ddefnyddwyr yn y tymor hwy. Yn hyn o beth, nod ein Codau cyntaf yw cofnodi arferion da presennol yn y diwydiant a phennu disgwyliadau clir ar gyfer codi safonau amddiffyn defnyddwyr, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau y mae eu systemau presennol yn anghyson neu'n annigonol. Mae pob mesur arfaethedig wedi cael ei asesu o ran effaith, gan ystyried lleihau niwed, effeithiolrwydd, cost a'r effaith ar hawliau.

Rydym wedi ystyried cymesuredd ac effaith gronnol ein cynigion yn ofalus. O ystyried ystod ac amrywiaeth y gwasanaethau sydd o fewn y cwmpas, nid ydym yn defnyddio dull 'un ffordd i bawb'. Rydym yn cynnig nifer fach o fesurau ar gyfer pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, a set debyg o fesurau ar gyfer yr holl wasanaethau chwilio. Y tu hwnt i'r rhain, mae llawer o'r mesurau eraill yn dibynnu ar y risgiau y mae'r gwasanaeth wedi'u canfod yn ei asesiad risg diweddaraf o gynnwys anghyfreithlon a maint y gwasanaeth.

Mae rhai mesurau wedi'u targedu at fynd i'r afael â'r risg o fathau penodol o droseddau, fel deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol, meithrin perthynas amhriodol a thwyll. Bwriad mesurau eraill yw mynd i'r afael ag ystod eang o droseddau. Rydym yn bwriadu i'r mesurau hyn fod yn berthnasol i wasanaethau sy'n wynebu risgiau sylweddol o droseddau yn gyffredinol.

---

[6] Nid yw hynny'n cynnwys mesurau sy'n ymwneud â llywodraethu ac atebolrwydd, sydd ym Mhennod 8 cyfrol 3, gan fod cyfrol 3 yn ymwneud â sut dylai gwasanaethau asesu risgiau niwed ar-lein. Fodd bynnag, mae'r cynnig ym Mhennod 8 yn rhan o'r Codau rydym yn eu cynnig.

[7] Rydym wedi penderfynu cyflwyno pob un o'r Codau Ymarfer defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio fel un ddogfen er mwyn ei gwneud yn haws ei darllen a lleihau dyblygu a chroesgyfeirio rhwng y gwahanol Godau y mae'n rhaid i ni eu cynhyrchu o dan y Ddeddf, sef Codau Ymarfer ar gyfer troseddau Atodlen 5 (terfysgaeth), Atodlen 6 (troseddau cam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio rhywiol), a'r troseddau eraill.

Bydd gwasanaethau sy'n penderfynu gweithredu mesurau a argymhellir iddynt ar gyfer y mathau o niwed anghyfreithlon a maint neu lefel y risg a nodir yn ein Codau Ymarfer yn cael eu trin fel rhai sy'n cydymffurfio â'r ddyletswydd berthnasol. Mae hyn yn golygu na fydd Ofcom yn cymryd camau gorfodi yn eu herbyn am dorri'r ddyletswydd honno.

## Beth rydym yn ei gynnig?

Rydym yn darparu rhestr lawn o'r mesurau rydym yn eu cynnig yn ein Codau a dadansoddiad o'r mathau o wasanaethau y byddem yn disgwyl iddynt eu dilyn yn y 'daflen ffeithiau' sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad. Yn y bennod hon rydym yn gwneud nifer o gynigion cyffredinol ynghylch ein dull gweithredu:

- Mae rhai o'r mesurau rydym yn eu cynnig yn targedu mathau penodol o niwed anghyfreithlon. Rydym yn cynnig defnyddio'r mesurau mwyaf beichus sy'n benodol i niwed yn ein Codau dim ond ar gyfer gwasanaethau sy'n fawr a/neu'n peri risg ganolig neu uchel ar gyfer y mathau penodol o niwed anghyfreithlon rydym yn ei dargedu.
- Mae rhai o'r mesurau rydym yn eu cynnig yn targedu ystod eang o niwed ar-lein. Rydym yn cynnig defnyddio'r mesurau mwyaf beichus yn ein Codau mewn gwasanaethau sy'n fawr a/neu'n aml-risg yn unig.
- Rydym yn cynnig diffinio bod gwasanaeth yn fawr pan fo ganddo sylfaen defnyddwyr gyfartalog sy'n fwy na 7 miliwn y mis yn y DU, sy'n cyfateb yn fras i 10% o boblogaeth y DU.
- Rydym yn cynnig diffinio bod gwasanaeth yn un aml-risg pan fo'n wynebu risg uchel neu ganolig ar gyfer o leiaf ddau fath o niwed anghyfreithlon.

## Pam rydym yn cynnig hyn?

Bydd canolbwyntio'r mesurau mwyaf beichus ar wasanaethau sy'n fawr a/neu'n wynebu risg ganolig neu uchel yn helpu i sicrhau bod effaith y rheoliadau yn gymesur. A phopeth arall yn gyfartal, bydd manteision y mesurau'n fwy pan fyddant yn cael eu cymhwyso i wasanaethau sydd â sylfaen fwy o ddefnyddwyr. Ar yr un pryd, a phopeth arall yn gyfartal, bydd manteision gwasanaeth risg ganolig neu uchel sy'n rhoi mesur ar waith fel arfer yn fwy na manteision gwasanaeth risg isel sy'n rhoi mesur ar waith.

Fel rydym yn egluro'n fanylach isod, pan fydd gwasanaethau'n peri risg uchel o achosi niwed, rydym yn rhoi mesurau mwy beichus ar waith iddyn nhw hyd yn oed pan fyddan nhw'n fach. Er bod cydberthynas weithiau rhwng maint a risg, yn achos rhai math o niwed (er enghraifft meithrin perthynas amhriodol), gall gwasanaethau bach beri risg uchel o niwed. Lle mae'r risgiau'n uchel iawn, mae'n bwysig bod pobl yn cael eu hamddiffyn hyd yn oed pan fydd y gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio yn gymharol fach.

Rydym yn credu y bydd gwasanaethau mwy yn tueddu i allu ysgwyddo costau'r mesurau mwy beichus yn well na gwasanaethau llai. Mae ein diffiniad o fawr yn adlewyrchu'n agos y diffiniad o wasanaethau mawr a ddefnyddir gan yr UE yn y Ddeddf Gwasanaethau Digidol. Rydym yn credu ei bod yn bwysig cysoni'n fras ein dull o bennu gwasanaethau mwy â chyfundrefnau rhyngwladol eraill lle bo hynny'n bosibl, er mwyn lleihau'r baich posibl i wasanaethau o gydymffurfio â rheoliadau.

## Pa fewnbwn rydym eisiau ei gael gan randdeiliaid?

- Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein dull cyffredinol o ddatblygu ein Codau Ymarfer ar gynnwys anghyfreithlon?
- Ydych yn cytuno y dylem yn gyffredinol gymhwyso'r mesurau mwyaf beichus yn ein Codau i wasanaethau sy'n fawr a/neu sy'n peri risg ganolig neu uchel yn unig?

- Ydych chi'n cytuno â'n diffiniad o wasanaethau mawr?
- Ydych chi'n cytuno â'n diffiniad o wasanaethau aml-risg?
- Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y Codau Ymarfer drafft eu hunain?[8]
- Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y rhagdybiaethau costau a nodir yn Atodiad 14, a ddefnyddiwyd gennym i gyfrifo costau gwahanol fesurau?

# 12. Cymedroli cynnwys (Defnyddiwr-i-Ddefnyddiwr)

## Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Mae'r bennod hon yn nodi ein hargymhellion arfaethedig ynghylch sut dylai gwasanaethau sefydlu eu systemau cymedroli cynnwys i gyflawni eu dyletswyddau sy'n ymwneud â niwed anghyfreithlon. Mae'n bwysig egluro na fydd Ofcom, fel rheoleiddiwr, yn mynegi safbwynt ar ddarnau unigol o gynnwys ar-lein. Yn hytrach, ein dull rheoleiddio yw sicrhau bod gan wasanaethau'r systemau a'r prosesau ar waith i gyflawni eu dyletswyddau.

## Beth rydym yn ei gynnig?

Rydym yn gwneud y cynigion canlynol ar gyfer pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:

- Bod â systemau neu brosesau wedi'u dylunio i dynnu cynnwys anghyfreithlon i lawr yn gyflym pan fo'n ymwybodol ohono.

Rydym yn gwneud y cynigion canlynol ar gyfer pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr aml-risg a phob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr:

- Pennu a chofnodi polisïau cynnwys mewnol. Dylai'r rhain nodi rheolau, safonau a chanllawiau ynghylch: pa gynnwys a ganiateir ac na chaniateir ar y gwasanaeth, a sut y dylid gweithredu a gorfodi polisïau. Wrth wneud hynny, dylai gwasanaethau ystyried eu hasesiad risg a'r arwyddion o niwed anghyfreithlon sy'n dod i'r amlwg.
- Pennu a chofnodi targedau perfformiad ar gyfer ei swyddogaethau cymedroli cynnwys a mesur a monitro ei berfformiad yn erbyn y targedau hyn. Dylai'r rhain gynnwys targedau ar gyfer pa mor gyflym mae cynnwys anghyfreithlon yn cael ei ddileu ac ar gyfer cywirdeb penderfyniadau cymedroli cynnwys. Wrth osod targedau perfformio, dylai gwasanaethau gydbwyso'r angen i dynnu cynnwys anghyfreithlon i lawr yn gyflym yn erbyn yr angen i wneud penderfyniadau cymedroli cywir.
- Paratoi a gweithredu polisi ynghylch blaenoriaethu cynnwys i'w adolygu. Dylai'r polisi hwn ystyried o leiaf y ffactorau canlynol: natur feirysol y cynnwys, difrifoldeb posibl y cynnwys, a'r tebygolrwydd bod cynnwys yn anghyfreithlon, gan gynnwys a yw wedi cael ei fflagio gan fflagiwr dibynadwy.
- **Darparu adnoddau ar gyfer ei swyddogaeth cymedroli cynnwys er mwyn rhoi ei bolisïau cynnwys mewnol a'i dargedau perfformiad ar waith.** Wrth wneud hynny, dylai ystyried y duedd o gynnydd yn y galw am cymedroli cynnwys a achosir gan ddigwyddiadau allanol. Wrth benderfynu sut i ddarparu adnoddau ar gyfer eu swyddogaethau, dylai gwasanaethau ystyried anghenion penodol ei sylfaen defnyddwyr yn y DU, mewn perthynas ag ieithoedd.

[8] Gweler Atodiadau 7 ac 8 i weld ein Codau Ymarfer drafft.

- Sicrhau bod pobl sy’n gweithio ym maes cymedroli cynnwys yn cael hyfforddiant a deunyddiau sy’n eu galluogi i gymedroli cynnwys yn effeithiol.

## Pam rydym yn cynnig hyn?

Cymedroli cynnwys yw’r arfer o adnabod ac adolygu cynnwys i benderfynu a ddylid ei ganiatáu ar wasanaeth. Mae prosesau neu systemau cymedroli cynnwys effeithiol yn caniatáu i wasanaethau adnabod a dileu cynnwys anghyfreithlon yn gyflym, yn gywir ac yn gyson. Mae’r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod cymedroli cynnwys yn chwarae rhan bwysig iawn o ran mynd i’r afael â niwed ar-lein a bod gwasanaethau sydd â swyddogaethau cymedroli cynnwys aneffeithiol yn peri risg uwch o niwed i ddefnyddwyr.

Mae ein dadansoddiad yn awgrymu y bydd niwed i ddefnyddwyr yn cael ei leihau pan fydd gwasanaethau’n pennu polisïau cynnwys, yn darparu adnoddau ac yn hyfforddi eu timau cymedroli cynnwys yn ddigonol ac yn ystyried difrifoldeb tebygol y cynnwys a’r risg y bydd yn mynd yn feirol wrth benderfynu pa gynnwys niweidiol posibl i’w flaenoriaethu i’w adolygu. O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau sydd o fewn cwmpas y rheoliadau newydd, ni fyddai dull un ateb i bawb o gymedroli cynnwys yn briodol. Yn hytrach na gwneud cynigion penodol a rhagnodol iawn ynghylch cymedroli cynnwys, rydym felly’n ymgynghori ar set lefel uchel o argymhellion a fyddai’n rhoi cryn hyblygrwydd i wasanaethau ynghylch sut i sefydlu eu timau cymedroli cynnwys.

Rydym wedi canolbwyntio’r cynigion mwyaf beichus yn y maes hwn ar wasanaethau sy’n fawr neu’n aml-risg. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod effaith y mesurau yn gymesur.  Yn yr un modd, bydd yr hyblygrwydd sy’n rhan o’n cynigion yn ei gwneud yn haws i wasanaethau eu cyflawni mewn ffordd sy’n gost-effeithiol ac yn gymesur iddynt.

Rydym yn cydnabod bod gwasanaethau yn aml yn defnyddio cyfuniad o adnoddau awtomataidd ac adolygiadau dynol i gymedroli cynnwys. Nid yw’r cynigion yn y bennod hon yn rhagnodol ynghylch y cydbwysedd y dylai gwasanaethau ei gael rhwng adolygiad dynol ac adolygiad awtomataidd o gynnwys, ac ni fyddai’n ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau ddefnyddio adnoddau awtomataidd i adolygu cynnwys. O ystyried y goblygiadau pwysig y byddent yn eu hachosi o ran hawliau preifatrwydd, lle rydym wedi gwneud argymhellion penodol ynghylch adolygu cynnwys yn awtomatig, rydym yn ystyried y rhain ar wahân ac yn fanylach mewn pennod ddiweddarach.

## Pa fewnbwn rydym eisiau ei gael gan randdeiliaid?

- Ydych chi’n cytuno â’n cynigion? Darparwch y dadleuon a'r dystiolaeth sylfaenol sy'n sail i'ch barn.

# 13. Cymedroli chwilio (Chwilio)

## Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Mae'r bennod hon yn trafod y camau rydym yn disgwyl i wasanaethau chwilio eu cymryd i gymedroli cynnwys chwilio y maent yn ei fynegeio.

## Beth rydym yn ei gynnig?

Rydym yn gwneud y cynnig canlynol ar gyfer pob gwasanaeth chwilio:

- Bod â systemau neu brosesau wedi'u dylunio i ddadfynegeio neu israddio cynnwys anghyfreithlon y mae'n ymwybodol ohono, a allai ymddangos mewn canlyniadau chwilio. Wrth ystyried a ddylid dadfynegeio neu israddio'r cynnwys dan sylw, dylai gwasanaethau ystyried y ffactorau canlynol: (i) pa mor gyffredin yw cynnwys anghyfreithlon sy'n cael ei letya gan y person â buddiant; (ii) buddiannau defnyddwyr o ran derbyn unrhyw ddeunydd cyfreithlon a fyddai'n cael ei effeithio; a (iii) pa mor ddifrifol yw natur niweidiol y cynnwys, gan gynnwys a yw'r cynnwys yn gynnwys anghyfreithlon blaenoriaethol ai peidio.

Rydym yn gwneud y cynigion canlynol ar gyfer yr holl wasanaethau chwilio cyffredinol mawr ac unrhyw wasanaethau chwilio aml-risg eraill:

- Pennu a chofnodi polisïau cynnwys mewnol. Dylai'r rhain nodi rheolau, safonau a chanllawiau ynghylch: pa gynnwys a ganiateir ac na chaniateir ar y gwasanaeth, a sut y dylid gweithredu a gorfodi polisïau. Wrth wneud hynny, dylai gwasanaethau ystyried eu hasesiad risg a'r arwyddion o niwed anghyfreithlon sy'n dod i'r amlwg.
- Pennu a chofnodi targedau perfformiad ar gyfer ei swyddogaethau cymedroli chwilio, a mesur a monitro ei berfformiad yn erbyn y targedau hyn. Dylai'r rhain gynnwys yr amser y mae cynnwys anghyfreithlon yn aros ar y gwasanaeth cyn iddo gael ei ddadfynegeio neu ei israddio, a chywirdeb y broses o wneud penderfyniadau. Wrth bennu targedau, dylai gwasanaethau gydbwyso dymunoldeb dadfynegeio neu israddio cynnwys yn gyflym yn erbyn yr angen i wneud penderfyniadau cymedroli cywir.
- Paratoi a gweithredu polisi ynghylch blaenoriaethu cynnwys i'w adolygu. Dylai'r polisi hwn ystyried o leiaf y ffactorau canlynol: natur feirysol y cynnwys, difrifoldeb posibl y cynnwys, a'r tebygolrwydd bod cynnwys yn anghyfreithlon, gan gynnwys a yw wedi cael ei fflagio gan fflagiwr dibynadwy.
- **Darparu adnoddau ar gyfer ei swyddogaeth cymedroli chwilio er mwyn rhoi ei bolisïau cynnwys mewnol a'i dargedau perfformiad ar waith.** Wrth wneud hynny, dylai ystyried y duedd o gynnydd yn y galw am cymedroli chwilio a achosir gan ddigwyddiadau allanol. Wrth benderfynu sut i ddarparu adnoddau ar gyfer eu swyddogaethau, dylai gwasanaethau ystyried anghenion penodol ei sylfaen defnyddwyr yn y DU, mewn perthynas ag ieithoedd.
- Sicrhau bod pobl sy'n gweithio ym maes cymedroli chwilio yn cael hyfforddiant a deunyddiau sy'n eu galluogi i gymedroli cynnwys yn effeithiol.

## Pam rydym yn cynnig hyn?

Er mwyn amddiffyn eu defnyddwyr, mae’n rhaid i wasanaethau chwilio gymryd camau cymesur i leihau’r risg y bydd unigolion yn dod ar draws cynnwys anghyfreithlon mewn chwiliadau, er enghraifft drwy ei ddadfynegeio neu ei israddio. Rydym yn cyfeirio at y gweithgareddau hyn fel cymedroli chwilio. Mae cymedroli chwilio effeithiol yn chwarae rhan bwysig o ran amddiffyn defnyddwyr rhag niwed sy’n gysylltiedig â chynnwys anghyfreithlon.

Er y bydd angen i wasanaethau chwilio weithredu bob amser lle mae ganddynt sail resymol dros gredu bod cynnwys anghyfreithlon mewn cynnwys chwilio, fel tudalen we, efallai na fydd bob amser yn briodol ei ddadfynegeio. Er enghraifft, os mai dim ond ychydig o gynnwys anghyfreithlon llai difrifol oedd ar y dudalen we honno a bod llawer iawn o gynnwys cyfreithlon gwerthfawr arni, efallai y byddai’n fwy priodol israddio’r dudalen we yn lle hynny. Ar y llaw arall, pan fydd tudalen we yn cynnwys y mathau mwyaf difrifol o gynnwys anghyfreithlon, mae dadfynegeio yn debygol o fod yn fwy priodol. Felly, rydym yn cynnig rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i wasanaethau chwilio ynghylch a ddylid dadfynegeio neu israddio tudalennau gwe gyda chynnwys anghyfreithlon, yn dibynnu ar y cyd-destun penodol.

Mae ein dadansoddiad yn awgrymu y bydd niwed i ddefnyddwyr yn cael ei leihau pan fydd gwasanaethau chwilio yn pennu polisïau cynnwys, yn darparu adnoddau ac yn hyfforddi eu timau cymedroli chwilio yn ddigonol ac yn ystyried difrifoldeb tebygol y cynnwys, ac amlder chwilio amdano, wrth benderfynu pa gynnwys niweidiol posibl i’w flaenoriaethu i’w adolygu. O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau sydd o fewn cwmpas y rheoliadau newydd, ni fyddai dull un ateb i bawb o gymedroli chwilio yn briodol. Yn hytrach na gwneud cynigion penodol a rhagnodol iawn ynghylch cymedroli chwilio, rydym felly’n ymgynghori ar set lefel uchel o argymhellion a fyddai’n rhoi cryn hyblygrwydd i wasanaethau ynghylch sut i sefydlu eu swyddogaethau cymedroli chwilio.

Rydym wedi canolbwyntio’r cynigion mwyaf beichus yn y maes hwn ar wasanaethau chwilio cyffredinol mawr ac unrhyw wasanaethau chwilio eraill sy’n aml-risg. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod effaith y mesurau yn gymesur. Yn yr un modd, bydd yr hyblygrwydd sy’n rhan o’n cynigion yn ei gwneud yn haws i wasanaethau chwilio eu cyflawni mewn ffordd sy’n gost-effeithiol ac yn gymesur iddynt.

Rydym yn cydnabod bod gwasanaethau chwilio yn aml yn defnyddio cyfuniad o adnoddau awtomataidd ac adolygiadau dynol i gymedroli cynnwys chwilio. Nid yw’r cynigion yn y bennod hon yn rhagnodol ynghylch y cydbwysedd y dylai gwasanaethau ei gael rhwng adolygiad dynol ac adolygiad awtomataidd o gynnwys, ac ni fyddai’n ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau ddefnyddio adnoddau awtomataidd i adolygu cynnwys. Lle rydym wedi gwneud argymhellion penodol ynghylch adolygu cynnwys chwilio yn awtomatig, rydym yn ystyried y rhain ar wahân ac yn fanylach mewn pennod ddiweddarach.

## Pa fewnbwn rydym eisiau ei gael gan randdeiliaid?

- Ydych chi’n cytuno â’n cynigion? Darparwch y dadleuon a'r dystiolaeth sylfaenol sy'n sail i'ch barn.

# 14. Cymedroli cynnwys awtomataidd (defnyddiwr-i-ddefnyddiwr)

## Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Yn ein pennod ar Gymedroli Cynnwys (defnyddiwr-i-ddefnyddiwr), fe wnaethom egluro ein cynigion mewn perthynas â'r mesurau y dylai gwasanaethau eu cymryd i sefydlu eu systemau cymedroli cynnwys mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r dyletswyddau diogelwch. Fe wnaethom egluro bod gwasanaethau'n defnyddio offer awtomataidd, yn aml ar y cyd â goruchwyliaeth ddynol, i wneud prosesau cymedroli cynnwys yn fwy effeithiol o ran canfod a dileu cynnwys anghyfreithlon a niweidiol. Gan fod yr adnoddau hyn yn caniatáu i wasanaethau ddod ar draws llawer iawn o gynnwys niweidiol yn gyflym, maent yn hanfodol i ymdrechion llawer o wasanaethau i leihau niwed. Mae'r bennod hon yn canolbwyntio'n fanwl ar offer cymedroli cynnwys awtomataidd, a pha offer awtomataidd y dylai ein Codau argymell y dylai gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr eu defnyddio.

## Beth rydym yn ei gynnig?

Rydym yn gwneud y cynigion canlynol ar gyfer rhai gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:

Rydym yn cynnig argymell y dylai rhai mathau o wasanaeth ddefnyddio techneg awtomataidd a elwir yn baru hashnodau i ddadansoddi cynnwys perthnasol i asesu a yw'n ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol, ac y dylai gymryd camau priodol i ddileu deunydd o'r fath yn gyflym ar ôl ei ganfod. Dylai'r mesur hwn fod yn berthnasol i'r gwasanaethau canlynol:

- gwasanaethau mawr sydd â risg ganolig neu uchel o ddelweddau deunydd cam-drin plant yn rhywiol yn eu hasesiad risg;
- gwasanaethau eraill sydd â risg uchel o ddelweddau deunydd cam-drin plant yn rhywiol yn eu hasesiad risg ac sydd â mwy na 700,000 o ddefnyddwyr misol yn y DU;
- gwasanaethau sydd â risg uchel o ddelweddau deunydd cam-drin plant yn rhywiol yn eu hasesiad risg ac sydd â mwy na 70,000 o ddefnyddwyr misol yn y DU;

Rydym yn cynnig argymell y dylai rhai mathau o wasanaeth ddefnyddio techneg awtomataidd a elwir yn ganfod URL i ddadansoddi cynnwys perthnasol i asesu a yw'n ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol, ac y dylai gymryd camau priodol i ddileu deunydd cam-drin plant yn rhywiol a ganfyddir yn gyflym. Dylai'r mesur hwn fod yn berthnasol i'r gwasanaethau canlynol:

- gwasanaethau mawr sydd â risg ganolig neu uchel o URLs deunydd cam-drin plant yn rhywiol yn eu hasesiad risg;
- gwasanaethau eraill sydd â risg uchel o URLs deunydd cam-drin plant yn rhywiol yn eu hasesiad risg ac sydd â mwy na 700,000 o ddefnyddwyr misol yn y DU;

Eitemau i'w defnyddio mewn twyll (canfod allweddeiriau safonol): dylai'r mathau canlynol o wasanaeth sefydlu technoleg canfod allweddeiriau safonol i nodi cynnwys sy'n debygol o fod yn drosedd â blaenoriaeth sy'n ymwneud ag eitemau i'w defnyddio mewn twyll (fel cynnwys sy'n cynnig cyflenwi manylion adnabod personol neu ariannol unigolion sydd wedi'u dwyn), ac ystyried cynnwys sydd wedi'i ganfod yn unol â'u polisi cymedroli cynnwys mewnol. Byddai'r mesur hwn fod yn berthnasol i'r gwasanaethau canlynol:

- gwasanaethau mawr sydd â risg ganolig neu uchel o dwyll yn eu hasesiad risg;

Dim ond mewn perthynas â chynnwys sy'n cael ei gyfathrebu'n **gyhoeddus** ar wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr y mae'r cynigion hyn yn berthnasol, lle mae'n dechnegol ymarferol eu rhoi ar waith. Yn unol â'r cyfyngiadau yn y Ddeddf, nid ydynt yn berthnasol i gyfathrebiadau preifat na chyfathrebiadau wedi'u hamgryptio o'r naill ben i'r llall. Yn Atodiad 9 yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi nodi canllawiau drafft sydd â'r bwriad o helpu gwasanaethau i benderfynu a yw cynnwys wedi cael ei gyfleu "yn gyhoeddus" neu'n "breifat" at y diben hwn.

## Pam rydym yn cynnig hyn?

**Deunydd Cam-drin Plant yn Rhywiol (CSAM)**

Mae cylchrediad CSAM ar-lein yn cynyddu'n gyflym. Mae cam-drin plant yn rhywiol a chylchrediad CSAM ar-lein yn achosi niwed sylweddol, a gall cylchrediad parhaus y delweddau hyn ail-drawmateiddio dioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth. Gall paru hashnodau a chanfod URL fod yn adnoddau defnyddiol ac effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â chylchrediad deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol.[9] Er y byddai ein cynigion yn arwain at gostau sylweddol i rai gwasanaethau, rydym o'r farn bod cyfiawnhad dros y costau hyn o ystyried natur ddifrifol iawn y niwed maen nhw'n mynd i'r afael ag ef. Er mwyn sicrhau bod y costau'n gymesur, rydym yn cynnig targedu'r mesurau hyn at wasanaethau lle mae risg ganolig neu uchel o URLs ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol neu ddeunydd o'r fath sy'n seiliedig ar ddelweddau.

Mewn egwyddor, rydym yn ystyried ar hyn o bryd y gellid cyfiawnhau argymell bod gwasanaethau sy'n peri risg uchel yn defnyddio'r technolegau hyn, hyd yn oed os ydynt yn wasanaethau bach iawn. Fodd bynnag, rydym yn cynnig pennu trothwyon niferoedd defnyddwyr, na fyddai gwasanaethau oddi tanynt o fewn cwmpas y mesur. Y rheswm am hyn yw y bydd angen i wasanaethau paru hashnodau a chanfod URL gael mynediad at gronfeydd data trydydd parti gyda chofnodion o ddelweddau cam-drin plant yn rhywiol hysbys a rhestrau o URLs sy'n gysylltiedig â deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol. Dim ond nifer cyfyngedig o ddarparwyr sy'n darparu'r cronfeydd data hyn, a dim ond nifer cyfyngedig o gleientiaid y mae ganddynt y gallu i'w gwasanaethu. Dylai pennu'r trothwyon niferoedd defnyddwyr rydym wedi'u cynnig sicrhau bod gan y darparwyr cronfeydd data y capasiti i wasanaethu'r holl wasanaethau sydd o fewn cwmpas y mesur. Os bydd capasiti darparwyr cronfeydd data yn ehangu dros amser, byddwn yn ceisio adolygu a yw'r trothwy arfaethedig yn dal yn briodol.

Rydym yn cynnig pennu trothwy is ar gyfer gwasanaethau storio ffeiliau a rhannu ffeiliau oherwydd bod tystiolaeth sy'n awgrymu bod y math hwn o wasanaeth yn chwarae rhan arbennig o bwysig yng nghylchrediad deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol. Ar ben hynny, mae gwasanaethau storio ffeiliau a rhannu ffeiliau fel arfer yn cyrraedd nifer is o ddefnyddwyr na rhai mathau eraill o wasanaeth. Felly, rydym yn credu ei bod yn briodol pennu trothwy is ar gyfer gwasanaethau storio ffeiliau a rhannu ffeiliau i sicrhau nad ydynt y tu allan i gwmpas y mesur er gwaethaf y rôl sylweddol y maent yn ei chwarae yng nghylchrediad deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol.

**Twyll**

Twyll yw'r niwed anghyfreithlon a brofir amlaf, a gall achosi niwed ariannol a seicolegol sylweddol. Mae ein hymchwil yn dangos bod twyllwyr yn defnyddio rhai gwasanaethau i gyflenwi, neu gynnig cyflenwi, eitemau i'w defnyddio mewn twyll (gan gynnwys manylion personol ac ariannol sydd wedi'u dwyn). Nid yn unig y mae hyn yn drosedd â blaenoriaeth, ond gall hefyd hwyluso troseddau twyll anghyfreithlon eraill sy'n flaenoriaeth. Mae ein hymchwil hefyd yn dangos, wrth drafod eitemau o'r fath, bod allweddeiriau penodol iawn yn tueddu i gael eu defnyddio, a bod y rhain – yn enwedig wrth eu cyfuno – yn annhebygol o gael eu defnyddio mewn unrhyw gyd-destun dilys.

[9] Er ein bod yn nodi bod cyfyngiadau ar yr hyn y gallant ei gyflawni, yng nghyd-destun dileu CSAM ar-lein.

Ein barn dros dro yw y byddai technoleg canfod allweddeiriau safonol yn ffordd effeithiol o fynd ati'n rhagweithiol i ganfod cynnwys sy'n debygol o fod yn drosedd sy'n ymwneud ag eitemau i'w defnyddio mewn twyll. Byddai cynnwys o'r fath wedyn yn cael ei ystyried gan wasanaethau yn unol â'u polisïau cymedroli cynnwys. Er y byddai ein cynigion yn arwain at gostau sylweddol i rai gwasanaethau, rydym o'r farn bod cyfiawnhad dros y costau hyn o ystyried natur ddifrifol iawn y niwed maen nhw'n mynd i'r afael ag ef. Er mwyn sicrhau bod y costau'n gymesur, rydym yn cynnig targedu'r mesur hwn at wasanaethau mawr sydd â risg ganolig neu uchel o dwyll.

Mae'r offer awtomataidd rydym yn cynnig eu cynnwys yn y fersiwn hwn o'n Codau wedi hen ennill eu plwyf ac mae llawer o'r gwasanaethau mwy wedi'u defnyddio ers blynyddoedd. Yn ymarferol, mae amrywiaeth o offer awtomataidd llawer mwy soffistigedig y mae gwasanaethau'n eu defnyddio i ganfod cynnwys niweidiol, gan gynnwys prosesu iaith naturiol a defnyddio dysgu peirianyddol i ganfod cynnwys niweidiol newydd nad oedd wedi'i ganfod o'r blaen. Mae offer o'r fath yn chwarae rhan bwysig ac nid ydym yn dymuno annog peidio â'u defnyddio; yn wir rydym yn cefnogi ymdrechion y diwydiant i'w datblygu a'u mireinio. Fodd bynnag, nid oes gennym ddigon o dystiolaeth ar eu costau a'u heffeithiolrwydd ar hyn o bryd i gyfiawnhau cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â'u defnyddio yn fersiwn gyntaf ein Codau Ymarfer.

## Pa fewnbwn rydym eisiau ei gael gan randdeiliaid?

- Ydych chi'n cytuno â'n cynigion? Oes gennych chi unrhyw farn am ein tri chynnig, h.y. paru hashnodau deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol, canfod URLs deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol, a chanfod allweddeiriau twyll? Darparwch y dadleuon a'r dystiolaeth sylfaenol sy'n sail i'ch barn.
- Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y canllawiau drafft a nodir yn Atodiad 9 ynghylch a yw cynnwys yn cael ei gyfleu 'yn gyhoeddus' neu 'yn breifat'?

Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth berthnasol am y canlynol:

- Cywirdeb paru hashnodau yn ganfyddiadol a chostau paru hashnodau deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol i wasanaethau llai;
- Gallu'r gwasanaethau sydd o fewn cwmpas y mesur paru hashnodau CSAM i gael mynediad at gronfeydd/gwasanaethau data hash, mewn perthynas â meini prawf mynediad neu ofynion a osodir gan ddarparwyr cronfeydd data a/neu wasanaethau paru hashnodau;
- Y costau i wasanaethau llai o weithredu ein mesur i ganfod URLs deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol, ac effeithiolrwydd paru rhannol[10] ar gyfer canfod yr URLs hyn;
- Costau defnyddio ein heitemau i'w defnyddio mewn twyll (canfod allweddeiriau safonol), gan gynnwys y costau i wasanaethau llai; a
- Defnydd effeithiol o baru hashnodau a/neu ganfod URL ar gyfer cynnwys terfysgaeth, gan gynnwys sut y gallai mesurau o'r fath fynd i'r afael â phryderon ynghylch 'cyd-destun' a rhyddid mynegiant, ac unrhyw wybodaeth sydd gennych am gostau ac effeithiolrwydd defnyddio paru hashnodau a chanfod URL ar gyfer cynnwys terfysgaeth gydag amrywiol wasanaethau.

[10] Gall cyfatebiaeth rannol baru cynnwys defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a rhestr URL, er nad yw'r testun yn union yr un fath.

# 15. Cymedroli chwilio awtomataidd (chwilio)

## Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Yn ein pennod ar Gymedroli Chwilio (Chwilio), fe wnaethom egluro ein cynigion mewn perthynas â’r mesurau y dylai gwasanaethau eu cymryd i sefydlu eu systemau cymedroli chwilio mewn ffordd sy’n cyd-fynd â’r dyletswyddau diogelwch. Gall gwasanaethau chwilio ddefnyddio offer awtomataidd i wneud prosesau cymedroli yn fwy effeithiol wrth nodi a chymryd camau mewn perthynas â chynnwys anghyfreithlon a niweidiol. Gan fod yr adnoddau hyn yn caniatáu i wasanaethau gymedroli llawer iawn o ganlyniadau chwilio yn gyflym, gallant fod yn hanfodol i helpu gwasanaethau i leihau niwed. Mae’r bennod hon yn canolbwyntio’n fanwl ar offer cymedroli awtomataidd ac yn asesu pa offer awtomataidd y dylai ein Codau argymell y dylai gwasanaethau chwilio eu defnyddio.

## Beth rydym yn ei gynnig?

Rydym yn gwneud y cynnig canlynol ar gyfer pob gwasanaeth chwilio cyffredinol:

- Sicrhau bod URLs sydd wedi’u nodi fel rhai sy’n lletya deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol neu fel rhai sy’n rhan o wefan sydd wedi’u neilltuo’n gyfan gwbl neu’n bennaf i’r deunyddiau hyn yn cael eu dadfynegeio o fynegai chwilio gwasanaeth perthnasol. Dylai gwasanaethau gael gafael ar restr briodol o URLs deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol gan drydydd partïon sydd ag arbenigedd mewn adnabod deunyddiau o’r fath ac sy’n bodloni meini prawf eraill a nodwyd. Dylid monitro’r rhestr yn rheolaidd i ganfod URLs newydd gyda deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol a chymryd camau i ddadfynegeio, ac adfer yr URLs hyn sydd wedi cael eu tynnu oddi ar y rhestr.

## Pam rydym yn cynnig hyn?

Mae’r cylchrediad ar-lein o ddeunyddiau cam-drin plant yn rhywiol yn cynyddu’n gyflym. Mae’r dystiolaeth a gyflwynir yng Nghyfrol 2 yn dangos bod drwgweithredwyr yn defnyddio gwasanaethau chwilio i gael gafael ar ddeunyddiau cam-drin plant yn rhywiol ac mae’r NCA wedi dangos ei bod yn bosibl dod o hyd i ddeunyddiau o’r fath o fewn tri chlic ar rai gwasanaethau chwilio mawr. Fel yr eglurwyd uchod, mae cam-drin plant yn rhywiol a chylchrediad ar-lein o ddeunyddiau cam-drin plant yn rhywiol yn achosi niwed sylweddol, a gall cylchrediad parhaus y delweddau hyn ail-drawmateiddio dioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth. Mae canfod URL yn offeryn effeithiol sydd wedi hen ennill ei blwyf ar gyfer mynd i’r afael â chylchrediad deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol ar wasanaethau chwilio. Mae’r gwasanaethau chwilio mwyaf eisoes yn ei ddefnyddio i fynd i’r afael â deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol. Er bod y defnydd o ganfod URL yn arwain at rai costau, rydym o’r farn bod cyfiawnhad dros y rhain o ystyried difrifoldeb y niwed maen nhw’n mynd i’r afael ag ef a manteision sylweddol cyfyngu ar ddod i gysylltiad â deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol hysbys.

## Pa fewnbwn rydym eisiau ei gael gan randdeiliaid?

- Ydych chi’n cytuno â’n cynigion? Darparwch y dadleuon a'r dystiolaeth sylfaenol sy'n sail i'ch barn.

## 16. Systemau riportio a chwyno i ddefnyddwyr (defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio)

### Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod yn rhaid i bob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio:

- **Bod â phroses gwyno hawdd ei defnyddio, sy'n caniatáu i ddefnyddwyr wneud cwynion**, fel: cwynion am bresenoldeb cynnwys anghyfreithlon; apeliadau lle gallai cynnwys fod wedi cael ei nodi'n anghywir fel cynnwys anghyfreithlon; cwynion am swyddogaeth riportio; cwynion am wasanaeth nad yw'n cydymffurfio â'i ddyletswyddau; cwynion am ddefnyddio technoleg ragweithiol mewn ffordd sy'n anghyson â thelerau gwasanaeth cyhoeddedig; a
- chymryd camau priodol mewn ymateb i gwynion.

Mae'r bennod hon yn nodi'r camau rydym yn cynnig eu hargymell ar gyfer gwasanaethau i gydymffurfio â'r dyletswyddau hyn ac mae'n cynnwys ein rhesymeg a'n tystiolaeth ategol ar gyfer ein cynigion.

### Beth rydym yn ei gynnig?

Rydym yn gwneud y cynigion canlynol ar gyfer pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio:

- Bod â phrosesau cwyno sy'n galluogi defnyddwyr yn y DU, unigolion yr effeithir arnynt ac (ar gyfer gwasanaethau chwilio lle bo hynny'n berthnasol) personau sydd â diddordeb, i wneud, er enghraifft, pob un o'r mathau o gwynion a nodir uchod.
- **Cael system gwyno hawdd ei chanfod, hawdd ei defnyddio a hawdd ei defnyddio**, gan gynnwys: adnoddau riportio cynnwys hawdd eu canfod a hygyrch, a ffyrdd o wneud mathau eraill o gŵyn; cyn lleied o gamau ag sy'n rhesymol ymarferol i wneud cwyn; gallu defnyddwyr yn y DU i ddarparu cyd-destun/deunydd ategol; a gwybodaeth a phrosesau i fod yn hygyrch ac yn ddealladwy, gan gynnwys ystyried defnyddwyr sydd ag anghenion hygyrchedd penodol fel plant (os yw plant yn defnyddio'r gwasanaeth) a'r rheini sydd ag anableddau.
- Cydnabod derbyn pob cwyn berthnasol gydag amserlenni dangosol ar gyfer penderfynu ar y gŵyn.
- **Camau y dylai gwasanaethau eu cymryd mewn ymateb i bob math o gŵyn**, fel: (a) lle mae sail resymol dros dybio bod cynnwys yn anghyfreithlon, dylai gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr dynnu hynny i lawr; (b) dylid ymdrin â chwynion am gynnwys anghyfreithlon yn unol â'n hargymhellion cymedroli cynnwys arfaethedig a chymedroli chwilio; (c) lle mae apêl yn llwyddiannus, dylid dychwelyd cynnwys yr achwynydd a/neu gyfrif i'w safle gwreiddiol – er enghraifft, os yw cynnwys wedi cael ei dynnu i lawr ar gam ar y sail y barnwyd yn anghywir ei fod yn anghyfreithlon, neu gyfrif wedi cael ei wahardd ar gam, dylid eu hadfer, neu os yw peiriant chwilio wedi israddio neu wedi dadfynegeio tudalen we ar gam ar y sail y barnwyd yn anghywir fod yna gynnwys anghyfreithlon, dylid ei hadfer.

## Rydym yn gwneud y cynigion canlynol ar gyfer pob gwasanaeth mawr sydd â risg ganolig neu uchel o dwyll:

- **Sefydlu a chynnal sianel riportio benodol ar gyfer twyll, ar gyfer fflagwyr dibynadwy.** Yn yr argymhelliad hwn, mae 'fflagiwr dibynadwy' yn cynnwys pob un o'r canlynol: Cyllid a Thollau EM (CThEM), yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Heddlu Dinas Llundain (ColP), yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA), y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC), yr Uned Troseddu Talu â Cherdyn (DCPCU), a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Mae hyn er mwyn galluogi gwell ymgysylltiad rhwng trydydd partïon arbenigol sydd â'r cymhwysedd, yr arbenigedd a'r wybodaeth i ganfod ac ymchwilio i dwyll (gan gynnwys cyrff gorfodi'r gyfraith perthnasol, adrannau'r llywodraeth a rheoleiddwyr), a gwasanaethau ar-lein.

## Pam rydym yn cynnig hyn?

Mae cwynion yn fecanweithiau pwysig i wasanaethau ddod yn ymwybodol o gynnwys niweidiol. Mae ein cynigion wedi'u cynllunio i sicrhau bod swyddogaethau riportio a chwynion yn gweithredu'n effeithiol. Rydym o'r farn y bydd hyn yn golygu y bydd gwasanaethau'n gallu adnabod a chael gwared ar gynnwys anghyfreithlon yn well, gan leihau niwed i ddefnyddwyr.

Mae sianeli riportio pwrpasol yn ffordd hawdd i 'fflagwyr dibynadwy' arbenigol roi gwybod am broblemau i lwyfannau. Gall y rhain chwarae rhan werthfawr o ran gwella'r broses o ganfod cynnwys anghyfreithlon, gan leihau niwed i ddefnyddwyr. Mewn egwyddor, gellid defnyddio sianeli riportio pwrpasol i fynd i'r afael ag amrywiaeth eang o niwed. Yn y fersiwn cyntaf hwn o'n Codau, rydym wedi canolbwyntio ein hargymhellion ar sianeli riportio penodol ar gyfer fflagwyr dibynadwy mewn perthynas â thwyll. Y rheswm am hynny yw ein bod wedi derbyn tystiolaeth benodol sy'n dangos bod sefydliadau sydd ag arbenigedd mewn twyll yn aml yn ei chael hi'n anodd riportio sgamiau i wasanaethau ac y byddai creu sianel riportio benodol yn chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael â'r broblem hon.

## Pa fewnbwn rydym eisiau ei gael gan randdeiliaid?

- Ydych chi'n cytuno â'n cynigion? Darparwch y dadleuon a'r dystiolaeth sylfaenol sy'n sail i'ch barn.

# 17. Telerau gwasanaeth a Datganiadau Sydd ar Gael i'r Cyhoedd

## Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod yn rhaid i bob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio:

- **Cynnwys y darpariaethau canlynol yn eu Telerau Gwasanaeth/Datganiadau Sydd ar Gael i'r Cyhoedd:** (a) sut mae unigolion yn cael eu hamddiffyn rhag cynnwys anghyfreithlon, (b) gwybodaeth am unrhyw dechnoleg ragweithiol a ddefnyddir i gydymffurfio â'r dyletswyddau diogelwch cynnwys anghyfreithlon, a (c) polisïau a phrosesau sy'n rheoli'r gwaith o drin a datrys cwynion perthnasol.

Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r rhwymedigaethau sydd gan wasanaethau o ran Telerau Gwasanaeth a Datganiadau sydd ar gael i'r cyhoedd (PAS)[11], a'n cynigion ar gyfer mesurau Cod yn y maes hwn, o ran y

[11] Datganiad a wneir gan wasanaeth chwilio yw PAS, sydd ar gael i aelodau o'r cyhoedd yn y DU, ac mae'n aml yn cynnwys gwybodaeth amrywiol am sut mae'r gwasanaeth yn gweithio.

darpariaethau y dylai gwasanaethau eu cynnwys ynddynt (a nodir uchod) a sut y gallant sicrhau eu bod yn glir ac yn hygyrch i ddefnyddwyr.

### Beth rydym yn ei gynnig?

Rydym yn gwneud y cynigion canlynol ar gyfer pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio:

- **Sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i'r darpariaethau yn eu Telerau Gwasanaeth/Datganiad i'r Cyhoedd**, yn yr ystyr eu bod: wedi'u cyfeirio'n glir at y cyhoedd, y gellir eu canfod yn y Telerau Gwasanaeth/Datganiad i'r Cyhoedd, a'u bod wedi'u gosod a'u fformatio mewn ffordd sy'n helpu defnyddwyr i'w darllen a'u deall; wedi'u hysgrifennu'n ddealladwy ar gyfer y person ieuengaf sy'n cael caniatâd i gytuno arnynt; a'u dylunio fel bod pobl sy'n dibynnu ar dechnolegau cynorthwyol yn gallu cael gafael arnynt.

### Pam rydym yn cynnig hyn?

Mae'n bwysig bod defnyddwyr yn cael gwybod sut mae gwasanaethau'n trin cynnwys anghyfreithlon. Ar sail ein dadansoddiad o lenyddiaeth gwyddoniaeth ymddygiadol, ein dealltwriaeth o'r arferion gorau a chanfyddiadau o'n gwaith yn rheoleiddio rhannu fideos ar-lein (VSPs), rydym o'r farn, os bydd gwasanaethau'n dilyn yr argymhellion a nodir uchod, y bydd y darpariaethau hyn yn glir, yn hygyrch ac yn hawdd i ddefnyddwyr eu deall. Bydd hyn yn golygu y bydd defnyddwyr yn gallu gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ynghylch pa wasanaethau i'w defnyddio, gan leihau'r risg o niwed ar-lein.

### Pa fewnbwn rydym eisiau ei gael gan randdeiliaid?

- Ydych chi'n cytuno â'n cynigion? Darparwch y dadleuon a'r dystiolaeth sylfaenol sy'n sail i'ch barn.
- Oes gennych unrhyw dystiolaeth, yn enwedig ar ddefnyddio ysgogiadau, i arwain gwaith pellach yn y maes hwn?

## 18. Gosodiadau diofyn a chefnogaeth i ddefnyddwyr sy'n blant (defnyddiwr-i-ddefnyddiwr)

### Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Mae'r bennod hon yn nodi pecyn o fesurau sy'n ymwneud â gosodiadau diofyn cyfrifon defnyddwyr plant ar wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, yn ogystal â darparu gwybodaeth gefnogol ar adegau tyngedfennol o brofiad plentyn fel defnyddiwr ar-lein. Nod y rhain yw lliniaru'r risgiau i blant sy'n defnyddio gwasanaethau fel nad ydynt yn dod ar draws niwed anghyfreithlon, gan ganolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael â meithrin perthynas amhriodol at ddibenion cam-drin rhywiol.

### Beth rydym yn ei gynnig?

Mae'r mesurau a nodir isod yn **berthnasol i ddefnyddwyr dan 18 oed**.

Rydym yn gwneud y cynigion canlynol ar gyfer pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr lle nodir risg uchel o feithrin perthynas amhriodol yn ogystal â'r holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr lle ceir risg ganolig o feithrin perthynas amhriodol. Am y tro, byddai'r rhain ond yn berthnasol i'r graddau bod gan wasanaeth ffordd o adnabod defnyddwyr sy'n blant ac y byddant yn dod i rym os yw'r wybodaeth sydd ar gael i wasanaethau yn dangos bod defnyddiwr yn blentyn. Os yw gwasanaethau eisoes yn defnyddio technolegau sicrwydd oedran, dylent ddefnyddio'r dulliau hynny i benderfynu a yw rhywun yn blentyn at ddibenion yr amddiffyniadau a nodir isod.

Os mai'r unig wybodaeth sydd ganddynt yw oedran wedi'i hunan-ddatgan gan y defnyddiwr, dylent ddefnyddio'r sail honno am y tro. Fodd bynnag, mae ein hymchwil yn dangos nad yw hunan-ddatgan yn ffordd ddigonol o roi sicrwydd oedran, gan fod plant yn aml yn ffugio gwybodaeth am eu hoedran. Y flwyddyn nesaf byddwn yn cyflwyno cynigion ynghylch defnyddio technoleg sicrhau oedran ar wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, wrth i ni ymgynghori ar y mesurau y dylai gwasanaethau eu cymryd i amddiffyn plant. Byddant yn cynnig/yn mynnu safonau uwch o ran gwirio oedran ar gyfer gwasanaethau lle mae plant yn ddefnyddwyr, a bydd hynny'n ffactor pwysig wrth sicrhau bod y mesurau a argymhellir yn yr adran hon yn effeithiol.

**Gosodiadau diofyn ar gyfer plant sy'n defnyddio gwasanaeth**

Os yw'r gwasanaeth yn darparu swyddogaethau perthnasol, dylai gyflwyno gosodiadau diofyn ar gyfer defnyddwyr sy'n blant gan sicrhau'r canlynol:

- Nid yw plant sy'n defnyddio gwasanaeth yn cael awgrymiadau i ehangu eu rhwydwaith o ffrindiau, nac yn cael eu cynnwys mewn awgrymiadau i ehangu eu rhwydwaith fel a gyflwynir i ddefnyddwyr eraill.
- Nid yw plant sy'n defnyddio gwasanaeth yn cael eu cynnwys mewn rhestrau o gysylltiadau defnyddwyr sy'n weladwy i'r cyhoedd, ac nid yw rhestrau sy'n nodi pwy mae plant wedi'u cysylltu â nhw yn cael eu dangos i ddefnyddwyr eraill.
- Os oes swyddogaeth mewn gwasanaeth sy'n caniatáu i ddefnyddwyr gysylltu'n ffurfiol â'i gilydd (e.e. dod yn 'ffrindiau') dylent sicrhau na all pobl anfon negeseuon uniongyrchol at blant sy'n defnyddio'r gwasanaeth heb sefydlu cysylltiad o'r fath yn gyntaf.
- Lle nad oes swyddogaeth i gysylltu defnyddwyr mewn gwasanaeth, caiff defnyddwyr sy'n blant gadarnhau a ydynt am dderbyn neges uniongyrchol gan ddefnyddiwr cyn bod y neges honno'n weladwy iddynt, oni bai fod negeseuon uniongyrchol yn elfen angenrheidiol neu'n ddibynnol ar brydlondeb fel rhan o swyddogaeth arall. Yn yr achos hwn, dylid cyflwyno ffordd y gall defnyddwyr sy'n blant gadarnhau'n weithredol cyn bod unrhyw ryngweithio sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth honno yn dechrau.
- Diffodd y nodwedd 'arddangos gwybodaeth awtomataidd am leoliad', sy'n creu ac yn dangos gwybodaeth am leoliad defnyddwyr sy'n blant.

**Cymorth i blant sy'n defnyddio gwasanaeth**

Dylai gwasanaethau ddarparu'r cymorth canlynol i blant sy'n defnyddio gwasanaeth mewn modd amserol a hygyrch, er mwyn helpu defnyddwyr sy'n blant i wneud dewisiadau gwybodus am risg pan fyddant yn:

- **ceisio analluogi un o'r gosodiadau diofyn sy'n cael eu hargymell**. Dylai'r wybodaeth helpu defnyddwyr sy'n blant i ddeall goblygiadau analluogi'r dewis diofyn, gan gynnwys yr amddiffyniadau y mae'n eu darparu.
- **ymateb i gais gan ddefnyddiwr arall i greu cysylltiad ffurfiol.** Dylai'r wybodaeth roi gwybod iddynt am y mathau o ryngweithiadau y byddai'r penderfyniad hwn yn eu galluogi, a'r opsiynau sydd ar gael i gymryd camau yn erbyn defnyddiwr - megis blocio, tewi, riportio neu gamau cyfatebol.
- **derbyn neges uniongyrchol gan ddefnyddiwr arall am y tro cyntaf.** Dylai'r wybodaeth eu hatgoffa mai dyma'r ohebiaeth uniongyrchol gyntaf gyda'r defnyddiwr hwnnw yn ogystal â'r opsiynau sydd ar gael i'w cymryd. Os yw negeseuon uniongyrchol yn elfen angenrheidiol ac yn ddibynnol ar brydlondeb fel rhan o swyddogaeth arall, gellid cyflwyno'r wybodaeth hon cyn bod defnyddiwr sy'n blentyn yn dechrau rhyngweithio â'r swyddogaeth honno.

- **cymryd camau yn erbyn defnyddiwr arall, gan gynnwys blocio a riportio**. Dylai'r wybodaeth gynnwys effaith y weithred (megis pa fathau o ryngweithio fyddai'n cael eu cyfyngu ac a fyddai'r defnyddiwr yn cael ei hysbysu), yn ogystal â'r opsiynau pellach sydd ar gael i gyfyngu ar y rhyngweithio neu i gryfhau eu diogelwch.

### Pam rydym yn cynnig hyn?

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn drosedd ddifrifol sy'n gallu cael effaith ddifrifol a gydol oes ar blant a chymunedau. Mae meithrin perthynas amhriodol yn golygu bod troseddwr yn cyfathrebu â phlentyn gyda'r bwriad o'i gam-drin yn rhywiol naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb. Mae cysylltiad agos rhwng hyn a phlant sy'n profi mathau eraill o gam-drin rhywiol, gan gynnwys treisio, troseddau'n ymwneud â deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol, a chamfanteisio rhywiol. Dyma rai o'r strategaethau mwyaf cyffredin y mae troseddwyr yn eu defnyddio i feithrin perthynas amhriodol â phlant: anfon ceisiadau ar hap i fod yn 'ffrind' i nifer fawr o blant; ymdreiddio i grwpiau ar-lein o ffrindiau i blant maent wedi llwyddo i gysylltu â nhw; ac anfon negeseuon uniongyrchol digymell at blant nad ydynt yn gysylltiedig â nhw. Byddai'r mesurau a gynigir uchod yn ei gwneud yn anoddach i ddrwgweithredwyr fabwysiadu'r strategaethau hyn ac felly'n helpu i'w hatal rhag meithrin perthynas amhriodol â phlant, gan fynd i'r afael â cham-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Byddai'r mesurau rydym yn eu cynnig yn arwain at rai costau untro i wasanaethau nad ydynt eisoes yn gwneud hyn. Byddai'r costau hyn yn debygol o fod yn y degau o filoedd o bunnoedd i wasanaethau bach ac yn y cannoedd o filoedd o bunnoedd i wasanaethau mawr. O ystyried natur ddifrifol iawn y niwed a lle bo gwasanaethau sy'n peri risg uchel o allu meithrin perthynas amhriodol, rydym o'r farn ar hyn o bryd y byddai'n gymesur disgwyl i'r gwasanaethau hynny wynebu'r costau hyn ni waeth beth yw eu maint.

### Pa fewnbwn rydym eisiau ei gael gan randdeiliaid?

- Ydych chi'n cytuno â'n cynigion? Darparwch y dadleuon a'r dystiolaeth sylfaenol sy'n sail i'ch barn.
- Oes unrhyw swyddogaethau y tu hwnt i'r rhai a restrir yn ein cynigion ddylai hysbysu defnyddwyr yn benodol wrth newid gosodiadau diofyn?
- Oes unrhyw bwyntiau eraill ar daith y defnyddiwr lle dylid rhoi gwybod i bobl ifanc o dan 18 oed am y risg o gynnwys anghyfreithlon?

## 19. Profi systemau argymell (defnyddiwr-i-ddefnyddiwr)

### Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Systemau argymell yw'r prif fodd o ddosbarthu cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr ar draws gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, a'r ffordd y mae defnyddwyr yn dod ar draws y cynnwys hwnnw. Mae'r bennod hon yn trafod y camau y gall gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr eu cymryd i fonitro a rheoli'r risg o gynnwys anghyfreithlon sy'n deillio o'u systemau argymell.

### Beth rydym yn ei gynnig?

Pan fydd gwasanaethau'n gwneud newidiadau i'w systemau argymell, maent yn aml yn cynnal profion ar y platfform i asesu'r effaith y bydd y newidiadau hynny'n ei chael. Rydym yn deall bod y profion hyn fel arfer yn canolbwyntio ar yr effaith y bydd newidiadau dylunio yn ei chael ar fetrigau masnachol ac ymgysylltu.

Rydym yn gwneud y cynigion canlynol ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd eisoes yn cynnal profion ar y platfform o'u systemau argymell a lle nodir risg ganolig neu uchel ar gyfer o leiaf ddau niwed penodol[12]:

- Pan fyddant yn cynnal profion ar y platfform, dylai gwasanaethau gasglu metrigau diogelwch a fydd yn eu galluogi i asesu a yw'r newidiadau'n debygol o olygu bod defnyddwyr yn fwy tebygol o weld cynnwys anghyfreithlon.

## Pam rydym yn cynnig hyn?

Ceir systemau argymell ar sawl math o wasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr ac maent yn aml yn hanfodol i helpu defnyddwyr ddod o hyd i gynnwys y maent yn ei fwynhau ac yn dymuno ymgysylltu ag ef. Fodd bynnag, pan fydd cynnwys anghyfreithlon yn cael ei lwytho i fyny i wasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a phan fo systemau cymedroli a ddefnyddir wrth lwytho i fyny yn methu dal y cynnwys hwnnw, gall systemau argymell gyfrannu at ehangu cyrhaeddiad y cynnwys anghyfreithlon hwnnw a chynyddu nifer y bobl sy'n dod ar ei draws.

Yn ein Cofrestr Risgiau, rydym yn nodi bod dyluniad systemau argymell yn gallu dylanwadu ar y graddau y mae cynnwys anghyfreithlon yn cael ei ledaenu ar wasanaeth.

Bydd casglu gwybodaeth am effaith newidiadau i systemau argymell ar ledaenu cynnwys anghyfreithlon yn rhoi gwasanaethau mewn sefyllfa i wneud dewisiadau dylunio tipyn gwell nag y byddent fel arall. Dylai hyn leihau'r niwed mae defnyddwyr yn ei ddioddef ar-lein.

Gan ein bod yn canolbwyntio'r mesur hwn ar wasanaethau sydd eisoes yn cynnal profion ar y platfform, ein barn ar hyn o bryd yw bod y gwasanaethau sydd o fewn cwmpas y mesur yn debygol o allu amsugno'r costau hyn yn gymharol hawdd. Er y gallai'r mesur hwn osod rhai costau ar wasanaethau, gall hefyd arwain at rai arbedion gwrthbwysol oherwydd gallai canfod a mynd i'r afael ag achosion posibl o niwed rhag-blaen leihau'r costau y mae gwasanaethau'n eu hwynebu y pen arall. Er enghraifft, gallai lleihau'r graddau y mae algorithmau argymell yn lledaenu cynnwys anghyfreithlon leihau'r costau y mae timau cymedroli cynnwys yn eu hwynebu wrth ddelio ag adroddiadau am gynnwys anghyfreithlon.

## Pa fewnbwn rydym eisiau ei gael gan randdeiliaid?

- Ydych chi'n cytuno â'n cynigion? Darparwch y dadleuon a'r dystiolaeth sylfaenol sy'n sail i'ch barn.
- Pa ddulliau gwerthuso allai fod yn addas ar gyfer gwasanaethau llai sydd heb gapasiti i gynnal profion ar y platfform?
- Rydym yn ymwybodol o nodweddion a pharamedrau dylunio y gellir eu defnyddio mewn system argymell i leihau dosbarthiad cynnwys anghyfreithlon, e.e. sicrhau cydbwysedd rhwng cynnwys/rhwydwaith a gosod pwysoliad isel/niwtral ar gynnwys sydd wedi'i labelu'n sensitif. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw baramedrau a dewisiadau dylunio eraill y profwyd eu bod yn gwella diogelwch defnyddwyr?

[12] deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol; pornograffi eithafol; camddefnyddio delweddau personol; ymyrraeth dramor; terfysgaeth; annog neu gynorthwyo hunanladdiad neu hunan-niwed; casineb; aflonyddu, stelcio, bygythiadau a cham-drin.

# 20. Rhagor o reolaeth i ddefnyddwyr (defnyddiwr-i-ddefnyddiwr)

## Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Yn y bennod hon rydym yn archwilio’r nodweddion y gall gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr eu defnyddio i helpu defnyddwyr reoli’r risg o ddod i gysylltiad â chynnwys anghyfreithlon. Nod y mesurau hyn yw rhoi mwy o reolaeth neu ddealltwriaeth i ddefnyddwyr o’r cynnwys maen nhw’n dod ar ei draws a chaniatáu iddynt wneud penderfyniadau am y risg o ddod i gysylltiad â chynnwys anghyfreithlon.

## Beth rydym yn ei gynnig?

Rydym yn gwneud y cynnig canlynol ar gyfer pob gwasanaeth mawr lle nodir bod risg ganolig neu uchel o unrhyw niwed penodedig a restrir yn y troednodyn canlynol,[13] sydd â phroffiliau defnyddwyr ac o leiaf un o’r swyddogaethau a restrir yn y troednodyn canlynol:[14]

- Dylai gwasanaethau gynnig opsiynau i bob defnyddiwr cofrestredig flocio neu dewi cyfrifon defnyddwyr eraill ar y gwasanaeth (p’un a ydynt wedi’u cysylltu ar y gwasanaeth ai peidio), a’r opsiwn i flocio pob defnyddiwr os nad ydynt wedi cysylltu â’i gilydd.

Rydym yn gwneud y cynnig canlynol ar gyfer pob gwasanaeth mawr lle nodir bod risg ganolig neu uchel o unrhyw niwed penodol a restrir yn y troednodyn canlynol,[15] ac sy’n galluogi defnyddwyr i wneud sylwadau ar gynnwys:

- Dylai gwasanaethau roi’r dewis i bob defnyddiwr cofrestredig allu diffodd sylwadau ar eu postiadau eu hunain.

Rydym yn gwneud y cynnig canlynol ar gyfer pob gwasanaeth mawr lle nodir bod risg ganolig neu uchel o dwyll neu ymyriant tramor, ac sydd eisoes yn gweithredu cynllun gwirio defnyddwyr nodedig a/neu gynllun gwirio defnyddwyr am ffi:

- Dylai fod gan wasanaethau bolisïau mewnol ar waith yn gyson ar gyfer gweithredu’r cynlluniau hyn gan fod yn fwy tryloyw yn gyhoeddus i ddefnyddwyr ynghylch beth mae statws wedi’i wirio yn ei olygu’n ymarferol.

## Pam rydym yn cynnig hyn?

Mae galluogi defnyddwyr i flocio defnyddwyr eraill yn gallu eu helpu i leihau’r risg o ddod ar draws cynnwys anghyfreithlon. Yn benodol, gall chwarae rhan bwysig wrth helpu defnyddwyr i osgoi achosion o niwed, fel aflonyddu, stelcian, bygythiadau a cham-drin, ac ymddygiad lle mae ganddynt bŵer dros rywun neu drwy orfodaeth. Yn yr un modd, gall caniatáu i ddefnyddwyr ddiffodd sylwadau fod yn ffordd effeithiol o’u helpu i osgoi amrywiol achosion o niwed anghyfreithlon gan gynnwys aflonyddu (fel trolio epilepsi a seiberfflachio) a chasineb.

Mae’r troseddau hyn ar led ac yn achosi niwed sylweddol. Yng ngoleuni pa mor gyffredin ydynt ac effaith y niwed a achosir, a’r rôl bwysig y gallai’r mesurau ei chwarae o ran mynd i’r afael â’r broblem, rydym o’r farn bod manteision ein cynigion yn ddigonol i gyfiawnhau’r costau a nodwyd. Mae rhywfaint o

---

[13] Ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol; aflonyddu, stelcian, bygythiadau a cham-drin; casineb; meithrin perthynas amhriodol; annog neu gynorthwyo hunanladdiad neu hunan-niwed.
[14] Creu cysylltiadau â defnyddwyr; postio cynnwys; neu gyfathrebu â defnyddwyr (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, negeseuon uniongyrchol a gwneud sylwadau ar gynnwys).
[15] Aflonyddwch, stelcian, bygythiadau a cham-drin; casineb; meithrin perthynas amhriodol; neu annog neu gynorthwyo hunanladdiad neu hunan-niwed.

ansicrwydd ynghylch rhai o’r costau. Er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu’n gymesur, rydym yn cynnig targedu’r mesurau at wasanaethau mawr sy’n peri risg ganolig neu uchel.

Mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod rhai defnyddwyr yn rhoi sylw i statws cyfrifon sydd wedi’u gwirio wrth benderfynu a ydynt am ymgysylltu â chynnwys ac ymddiried ynddo. Os nad yw defnyddwyr yn deall beth yn union beth yw ystyr statws sydd wedi'i wirio, mae risg y gallent gael eu twyllo gan bobl sy’n dynwared rhywun arall neu gan wybodaeth gamarweiniol a ledaenir gan rywrai sy’n gweithredu ar ran gwladwriaeth dramor elyniaethus. Mae ein mesur arfaethedig sy’n ymwneud â chynlluniau gwirio yn mynd i’r afael â’r risg hon.

### Pa fewnbwn rydym eisiau ei gael gan randdeiliaid?

- Ydych chi’n cytuno â’n cynigion? Darparwch y dadleuon a'r dystiolaeth sylfaenol sy'n sail i'ch barn.
- Ydych chi’n credu y dylai’r ddau fesur cyntaf arfaethedig gynnwys gofynion o ran sut i hysbysu defnyddwyr o’r rheolaethau hyn?
- Ydych chi’n credu bod yna sefyllfaoedd lle mae gwerth neu risgiau penodol ynghlwm wrth labelu cyfrifon drwy gynlluniau gwirio gwirfoddol?

## 21. Mynediad defnyddwyr at wasanaethau (defnyddiwr-i-ddefnyddiwr)

### Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Mae’r bennod hon yn ystyried i ba raddau y byddai blocio defnyddwyr sydd wedi postio’r mathau mwyaf niweidiol o gynnwys rhag defnyddio gwasanaeth yn gwella diogelwch ar-lein. Mae Ofcom yn cydnabod y goblygiadau sylweddol y gallai’r argymhellion rydym yn eu gwneud o ran mynediad defnyddwyr at wasanaeth eu cael ar hawliau defnyddwyr ac rydym wedi ystyried hyn yn ofalus wrth ddatblygu ein cynigion.

### Beth rydym yn ei gynnig?

Rydym yn gwneud y cynnig canlynol ar gyfer pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:

- Dylai gwasanaethau dynnu cyfrif defnyddiwr o’r gwasanaeth os oes ganddynt sail resymol dros gredu ei fod yn cael ei weithredu gan neu ar ran grŵp neu sefydliad terfysgol sydd wedi’i wahardd gan Lywodraeth y DU (‘sefydliad gwaharddedig’).

Rydym hefyd yn bwriadu gwneud rhagor o waith ar fesur ar gyfer pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr o bosib**:**

- **Dylai gwasanaethau flocio cyfrifon defnyddwyr sy’n rhannu deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol.** Rydym yn casglu rhagor o dystiolaeth a fydd yn cyfrannu at fanylion unrhyw fesur o’r fath. Ein nod yw ymgynghori ar fanylion llawn mesur o’r fath y flwyddyn nesaf.

## Pam rydym yn cynnig hyn?

Mae rhywfaint o dystiolaeth bod blocio defnyddwyr sy'n postio'r mathau mwyaf niweidiol o gynnwys yn gallu helpu i fynd i'r afael â niwed ar-lein. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu am y tro y dylem droedio'n ofalus gyda'r maes hwn o ystyried y goblygiadau sylweddol y byddai cyfyngu ar fynediad defnyddwyr i'r rhyngrwyd yn eu cael ar hawliau sylfaenol fel y rhyddid mynegiant, a'r ffaith bod bylchau yn ein sylfaen dystiolaeth am yr opsiynau technegol o ran blocio defnyddwyr. Felly, rydym yn canolbwyntio'r cynigion yn y bennod hon ar nifer fach o'r mathau mwyaf difrifol o niwed anghyfreithlon.

O ystyried ein sylfaen dystiolaeth bresennol, credwn ei bod yn gymesur argymell mesurau sy'n mynnu bod sefydliadau gwaharddedig yn cael eu dileu o wasanaeth oherwydd byddai cymryd unrhyw gamau bwriadol er budd sefydliad gwaharddedig yn drosedd. Drwy ddileu cyfrifon sefydliadau gwaharddedig, dylai hynny ei gwneud yn anoddach i'r sefydliadau hyn gyfathrebu ar-lein.

Ar hyn o bryd, rydym o'r farn y byddai'n gymesur i gyflwyno mesur sy'n argymell blocio cyfrifon defnyddwyr sy'n rhannu deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol, o ystyried difrifoldeb y niwed. Ond mae angen i ni wneud mwy o waith i ddatblygu manylion unrhyw fesur o'r fath ac felly ein nod yw ymgynghori ar hynny y flwyddyn nesaf.

## Pa fewnbwn rydym eisiau ei gael gan randdeiliaid?

- Ydych chi'n cytuno â'n cynigion? Darparwch y dadleuon a'r dystiolaeth sylfaenol sy'n sail i'ch barn.

Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth a gwybodaeth ategol a fyddai'n cyfrannu at unrhyw argymhellion y gallem eu gwneud ynghylch blocio pobl sy'n rhannu deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol? Yn benodol:

- Pa opsiynau sydd ar gael i flocio ac atal defnyddiwr rhag dychwelyd i wasanaeth (e.e. blocio yn ôl enw defnyddiwr, e-bost neu gyfeiriad IP, neu gyfuniad o ffactorau)? Beth yw manteision ac anfanteision y gwahanol opsiynau, gan gynnwys unrhyw effaith bosibl ar ddefnyddwyr eraill?
- Am ba mor hir ddylai defnyddiwr gael ei flocio am rannu deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol, ac a ddylai'r cyfnod amrywio yn dibynnu ar natur y trosedd a gyflawnwyd?
- Mae risg y gallai cynnwys cyfreithlon gael ei glustnodi'n anghywir gan systemau awtomatig fel deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol, a gallai hynny effeithio ar hawliau defnyddwyr cyfreithlon. Pa gamau y gall gwasanaethau eu cymryd i reoli'r risg hon? Er enghraifft, oes opsiynau eraill yn lle blocio ar unwaith (fel system rhybuddio) a allai helpu i liniaru rhai o'r risgiau a'r effeithiau ar hawliau defnyddwyr?

# 22. Dylunio gwasanaethau a chymorth i ddefnyddwyr (Chwilio)

## Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Mae’r bennod hon yn cyflwyno ein cynigion ar gyfer mesurau y gall gwasanaethau chwilio eu cymryd i ddylunio eu gwasanaethau mewn ffordd sy’n amddiffyn pobl rhag niwed.

## Beth rydym yn ei gynnig?

Rydym yn gwneud y cynigion canlynol ar gyfer pob gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr:

- Dylai gwasanaethau sy’n defnyddio swyddogaethau darogan testun wrth chwilio gynnig ffordd i ddefnyddwyr riportio’n hawdd unrhyw awgrymiadau chwilio a all, yn eu barn nhw, gyfeirio defnyddwyr tuag at gynnwys anghyfreithlon â blaenoriaeth. Pan ddaw adroddiad i law, dylai gwasanaethau ystyried a yw geiriad yr awgrym chwilio darogan a riportiwyd yn peri risg glir a rhesymegol y bydd defnyddwyr yn dod ar draws cynnwys chwilio sy’n gynnwys anghyfreithlon â blaenoriaeth. Pe canfyddir risg, dylai gwasanaethau gymryd camau priodol i sicrhau nad yw’r awgrym darogan testun chwilio sydd wedi’i riportio yn cael ei argymell i unrhyw ddefnyddiwr.
- Dylai gwasanaethau ddarparu gwybodaeth am atal argyfwng mewn ymateb i geisiadau chwilio sy’n cynnwys ymholiadau cyffredinol ynghylch hunanladdiad ac ymholiadau sy’n gofyn am wybodaeth benodol, ymarferol neu addysgiadol am ddulliau hunanladdiad. Dylai’r wybodaeth hon gynnwys llinell gymorth a dolenni at wybodaeth gefnogol sydd ar gael am ddim gan sefydliad iechyd meddwl neu sefydliad atal hunanladdiad dibynadwy. Dylai hefyd gael ei arddangos yn amlwg i ddefnyddwyr yn y canlyniadau chwilio.
- Dylai gwasanaethau ddefnyddio dulliau i ganfod a darparu rhybuddion mewn ymateb i geisiadau chwilio lle mae’r geiriad yn awgrymu’n glir y gallai’r defnyddiwr fod yn ceisio dod o hyd i ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol. Dylai’r rhybudd hwn gynnwys gwybodaeth sy’n nodi bod deunydd cam-drin plant yn rhywiol yn anghyfreithlon, a dolenni i adnoddau gan sefydliad cam-drin plant yn rhywiol dibynadwy i helpu defnyddwyr i ymatal rhag cyflawni troseddau cam-drin a chamfanteisio’n rhywiol ar blant. Dylai hefyd gael ei arddangos yn amlwg i ddefnyddwyr yn y canlyniadau chwilio.

## Pam rydym yn cynnig hyn?

Weithiau, gall swyddogaethau darogan testun wrth chwilio awgrymu termau chwilio sy'n arwain defnyddwyr at gynnwys niweidiol a allai fod yn anghyfreithlon. Byddai’r mesur cyntaf rydym wedi’i gynnig yn helpu i fynd i’r afael â’r broblem hon. Mae’r dystiolaeth rydym wedi’i hasesu yn awgrymu y gallai’r ddau fesur arall leihau’r tebygolrwydd y bydd defnyddwyr yn dod ar draws cynnwys sy’n hyrwyddo hunanladdiad a deunydd cam-drin plant yn rhywiol, yn y drefn honno.

Mae’r mesurau rydym yn eu cynnig yn adlewyrchu’r hyn rydym yn ei ddeall yw’r drefn arferol yn y diwydiant ar hyn o bryd. Rydym yn cydnabod fod y sail dystiolaeth sydd ar gael i’r cyhoedd ar wasanaethau chwilio yn eithaf cyfyngedig. Felly, ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio ar godeiddio nifer fach o elfennau o arferion gorau sydd wedi ennill eu plwyf yn hytrach na gwthio am newidiadau sylweddol yng ngweithdrefnau diogelwch gwasanaethau chwilio. Wrth i ni ddysgu dros amser, rydym yn disgwyl adeiladu ar ein dull gweithredu a’i fireinio.

## Pa fewnbwn rydym eisiau ei gael gan randdeiliaid?

- Ydych chi’n cytuno â’n cynigion? Darparwch y dadleuon a'r dystiolaeth sylfaenol sy'n sail i'ch barn.

# 23. Asesiad Cronnol

## Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Yn y penodau blaenorol, gwnaethom asesu effaith y mesurau rydym yn cynnig eu cynnwys yn unigol ac egluro pam rydym yn credu bod pob un o'n cynigion ar ei ben ei hun yn effeithiol ac yn gymesur. Yn y bennod hon, rydym yn edrych ar effaith gronnus ein holl gynigion gyda'i gilydd ac yn asesu a fyddai eu heffaith yn gymesur, o edrych ar hynny yn ei holl agweddau. Rydym yn canolbwyntio'n benodol ar yr effaith gronnus ar fusnesau bach a microfusnesau.

Ein casgliad dros dro yw nid yn unig bod pob un o'r mesurau a welir ar eu pen eu hunain yn effeithiol ac yn gymesur, ond y byddai eu heffaith gronnus hefyd yn gymesur. Er mwyn dod i'r casgliad hwn, rydym wedi edrych ar effaith gronnol y mesurau ar dri math o wasanaeth: gwasanaethau bach â risg isel; gwasanaethau bach sy'n aml-risg neu sy'n peri risg ganolig neu uchel o niwed penodol; a gwasanaethau mawr.

### Gwasanaethau bach â risg isel

Bydd angen i bob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a chwilio sydd o fewn cwmpas y Ddeddf gymryd camau, hyd yn oed y rheini a ddarperir gan fusnesau bach a micro sydd â risg isel. Ar gyfer rhai gwasanaethau, gallai'r mesurau hyn olygu newidiadau sylweddol. Er mwyn sicrhau bod effaith y rheoliadau yn gymesur, rydym wedi targedu'r mesurau mwyaf beichus at y gwasanaethau â'r risg uchaf. Mae'r asesiad yn y bennod hon yn dangos y dylai effaith ein cynigion ar wasanaethau risg isel a bach fod yn isel ar y cyfan. Pan fo mesurau yn ein Codau yn arwain at gostau arwyddocaol i wasanaethau bach â risg isel, mae'r costau hyn yn deillio o ofynion penodol y Ddeddf yn hytrach nag o benderfyniadau a wnaed gennym ynglŷn â sut y dylai gwasanaethau ddehongli gofynion y Ddeddf.

### Gwasanaethau sy'n fach ond sydd â risgiau

Ar gyfer y busnesau bach a microfusnesau hynny sy'n nodi risgiau sylweddol o gynnwys anghyfreithlon yn eu hasesiadau risg, rydym yn cynnig mesurau llymach. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau llywodraethu ychwanegol, cynnwys ychwanegol neu fesurau cymedroli chwilio, ac, yn achos gwasanaethau sy'n peri risg uchel o gael eu defnyddio i ddosbarthu mesurau a allai fod yn ddrud ar gyfer deunydd cam-drin plant yn rhywiol, fel paru hashnodau.

Gallai effaith gronnus y mesurau hyn fod yn sylweddol iawn ac mae'n bosibl y bydd rhai busnesau bach a microfusnesau yn ei chael hi'n anodd hyd yn oed i ddarparu adnoddau ar gyfer yr argymhellion rydym yn eu cynnig ar eu cyfer. Fodd bynnag, ar y cyfan, rydym o'r farn bod effaith gronnol ein cynigion yn gymesur o ystyried ein bod yn targedu'r mesurau mwyaf defnyddiol at wasanaethau risg uchel.

### Gwasanaethau mawr

O safbwynt gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a gwasanaethau chwilio, rydym yn cynnig mesurau llymach ar gyfer gwasanaethau mawr. Mae hyn yn rhannol oherwydd os yw gwasanaethau mawr yn cymryd camau mae'r manteision yn tueddu i fod yn fwy oherwydd eu sylfaen fawr o ddefnyddwyr. Hefyd, mae'n debygol bod ganddynt yr adnoddau angenrheidiol i roi'r mesurau ar waith.

## Pa fewnbwn rydym eisiau ei gael gan randdeiliaid?

- Ydych chi'n cytuno bod baich cyffredinol ein mesurau yn gymesur ar gyfer busnesau bach a microfusnesau sy'n peri risg isel?

- Ydych chi'n cytuno bod y baich cyffredinol yn gymesur ar gyfer y busnesau bach a microfusnesau hynny sy'n gweld bod ganddynt risgiau sylweddol o gynnwys anghyfreithlon ac rydym yn cynnig argymell rhagor o fesurau ar eu cyfer?
- Rydym yn rhoi mwy o fesurau ar waith ar gyfer gwasanaethau mawr. Ydych chi'n cytuno bod y baich cyffredinol ar wasanaethau mawr yn gymesur?

## 24. Profion statudol

### Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Wrth ddylunio ein Codau, mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn mynnu ein bod yn ystyried nifer o egwyddorion ac amcanion, a nodir yn Atodlen 4 y Ddeddf. Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 hefyd yn gosod nifer o ddyletswyddau arnom wrth gyflawni ein swyddogaethau, gan gynnwys mynnu ein bod yn ystyried y risg o niwed i ddinasyddion o gynnwys ar wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio.

Yn y bennod hon rydym yn amlinellu'r gwahanol egwyddorion ac amcanion a nodir yn Atodlen 4 i'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ac adran 3 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau, ac yn egluro'r rhesymau pam rydym yn credu bod ein hargymhellion arfaethedig ar gyfer ein Codau Ymarfer ar gynnwys anghyfreithlon yn bodloni'r gofynion hyn. Rydym yn darparu rhagor o wybodaeth am ddyletswyddau Ofcom mewn perthynas â pharatoi ein Codau yn ein Fframwaith Cyfreithiol (Atodiad 12).

### Pa fewnbwn rydym eisiau ei gael gan randdeiliaid?

- Ydych chi'n cytuno bod argymhellion arfaethedig Ofcom ar gyfer y Codau yn briodol yng ngoleuni'r materion y mae'n rhaid i Ofcom roi sylw iddynt? Os nad ydych, pam ddim?

# Cyfrol 5: sut dylid barnu a yw cynnwys yn anghyfreithlon ai peidio? (Canllawiau Dyfarniadau Cynnwys Anghyfreithlon)

## 25. Cyflwyniad i gyfrol 5

Yn y gyfrol hon, rydym yn nodi'r dull a ddefnyddiwyd gennym i ddatblygu ein 'canllawiau dyfarniadau cynnwys anghyfreithlon', sy'n egluro i wasanaethau sut y dylent asesu a yw cynnwys yn anghyfreithlon ai peidio.

## 26. Y Canllawiau Dyfarniadau Cynnwys Anghyfreithlon

### Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Mae'r Ddeddf yn mynnu ein bod yn rhoi arweiniad i wasanaethau ynghylch sut gallant farnu a yw darn o gynnwys yn debygol o fod yn anghyfreithlon ai peidio. Yn y bennod hon, rydym yn nodi ein dull lefel uchel arfaethedig o ddatblygu'r Canllawiau Dyfarniadau Cynnwys Anghyfreithlon. Rydym yn egluro'r termau allweddol sy'n berthnasol i ddyfarnu cynnwys anghyfreithlon, a'r ffactorau allweddol a ystyriwyd gennym wrth ddrafftio'r Canllawiau. Yna, rydym yn nodi'r ystyriaethau cyfreithiol a pholisi manylach y bu'n rhaid i ni roi sylw iddynt wrth ddatblygu'r canllawiau hyn ar gyfer troseddau penodol.

### Beth rydym yn ei gynnig?

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod gwasanaethau'n cymryd camau yn erbyn cynnwys pan fo ganddynt sail resymol dros gredu ei fod yn anghyfreithlon. Yn fras, gall gwasanaethau gyflawni'r ddyletswydd hon mewn dwy ffordd. Os ydynt yn dymuno, gallant ddilyn y broses a nodir yn ein Canllawiau i bennu a oes sail resymol dros dybio bod darn o gynnwys yn anghyfreithlon. Fel arall, gallant ddrafftio eu telerau ac amodau eu hunain mewn ffordd sy'n golygu bod yr holl gynnwys a fyddai'n anghyfreithlon yn y DU yn cael ei wahardd ar eu gwasanaeth i ddefnyddwyr yn y DU a gwneud penderfyniadau ynghylch cymedroli cynnwys ar sail eu telerau a'u hamodau nhw.[16] Yn ymarferol, rydym yn disgwyl y bydd llawer o wasanaethau'n defnyddio'r ail o'r dulliau hyn, neu ddull hybrid.

Yn y Canllawiau, rydym yn cynnig darparu arweiniad i wasanaethau i roi mwy o eglurder iddynt ynghylch sut y dylent asesu a yw cynnwys yn anghyfreithlon ai peidio. Nid yw'r canllawiau arfaethedig yn ystyried a allai cynnwys ei gwneud yn haws i gyflawni trosedd. Yn ein canllawiau arfaethedig, rydym hefyd yn nodi ein safbwynt dros dro ar y canlynol: (a) beth y dylai gwasanaeth ei ystyried i benderfynu a oes ganddo 'sail resymol dros dybio bod cynnwys yn gynnwys anghyfreithlon', a (b) beth allai fod yn wybodaeth sydd 'ar gael yn rhesymol' i wasanaethau wrth wneud dyfarniad cynnwys anghyfreithlon.

[16] Mae gwasanaethau'n rhydd i dynnu cynnwys y tu hwnt i'r hyn sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf, cyn belled â'u bod yn gwneud hyn yn glir yn eu telerau gwasanaeth, a bod eu harferion cymedroli cynnwys yn arwain at ddileu cynnwys anghyfreithlon yn amserol fel y nodir yn y dyletswyddau diogelwch ar gyfer cynnwys anghyfreithlon.

## Pa fewnbwn rydym eisiau ei gael gan randdeiliaid?

- Ydych chi'n cytuno â'n cynigion, gan gynnwys manylion y drafftio? Beth yw'r dadleuon a'r dystiolaeth sylfaenol sy'n sail i'ch barn?
- Ydych chi'n credu bod y canllawiau'n ddigon hygyrch, yn enwedig i wasanaethau sydd â mynediad cyfyngedig at arbenigedd cyfreithiol?
- Beth yw eich barn chi am ein hasesiad o ba wybodaeth sydd ar gael yn rhesymol ac sy'n berthnasol i ddyfarniadau cynnwys anghyfreithlon?

# Cyfrol 6: pwerau casglu gwybodaeth a gorfodi, a’r dull goruchwylio

## 27. Cyflwyniad i gyfrol 6

Mae’r gyfrol hon yn nodi ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer ein pwerau gwybodaeth, ein pwerau gorfodi, a’n safbwyntiau cychwynnol ynghylch sut byddwn yn mynd ati i oruchwylio rhai gwasanaethau.

## 28. Pwerau gwybodaeth

### Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Mae’r Ddeddf yn rhoi’r pŵer i Ofcom fynnu bod gennym yr wybodaeth sydd ei hangen arnom at ddibenion arfer ein dyletswyddau a’n swyddogaethau diogelwch ar-lein, neu benderfynu a ddylid eu harfer ai peidio. Mae’r bennod hon yn rhoi trosolwg o bwerau Ofcom o ran casglu gwybodaeth, ynghyd â dull Ofcom o gasglu gwybodaeth o dan y Ddeddf.

### Beth rydym yn ei gynnig?

Byddwn yn defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth mewn ffordd sy’n gymesur â’r defnydd a wneir o’r wybodaeth a dim ond pan fydd angen i ni gael gwybodaeth er mwyn arfer swyddogaeth diogelwch ar-lein neu i benderfynu a ddylid gwneud hynny ai peidio y byddwn yn cyhoeddi hysbysiad gwybodaeth. Rydym yn disgwyl defnyddio ein pŵer i gyhoeddi hysbysiadau gwybodaeth statudol yn rheolaidd fel y bydd y drefn yn dechrau. Bydd unrhyw hysbysiadau gwybodaeth a gyhoeddwn yn nodi pwrpas y cais yn glir a pham mae angen yr wybodaeth arnom. Nid ydym yn rhagweld defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth eraill, megis adroddiadau pobl fedrus a phwerau mynediad, arolygu ac archwilio mor aml, a bydd y rhain fel arfer yn cael eu cadw ar gyfer achosion mwy difrifol.

Mae gennym lawer o brofiad o ddelio â gwybodaeth a ddaw gan wasanaethau sy’n cael eu rheoleiddio, a thrydydd partïon eraill. Ni fyddwn yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol oni bai fod rheswm cyfreithiol dros wneud hynny, a byddwn yn ystyried yn ofalus yr angen i ddatgelu yn erbyn unrhyw bryderon cyfrinachedd sydd gan y person sy’n darparu’r wybodaeth.

Rydym yn disgwyl cyhoeddi canllawiau ar sut y byddwn yn defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth yn nes ymlaen wrth roi’r Ddeddf ar waith.

### Pam rydym yn cynnig hyn?

Mae’r gallu i gasglu gwybodaeth yn hanfodol er mwyn i Ofcom allu cyflawni ein swyddogaethau ac amddiffyn defnyddwyr ar-lein. Felly, byddwn yn defnyddio’r pwerau hyn pan fyddwn yn credu ei bod yn gymesur gwneud hynny.

### Pa fewnbwn rydym eisiau ei gael gan randdeiliaid?

- Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer pwerau casglu gwybodaeth o dan y Ddeddf?

# 29. Pwerau gorfodi

## Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Mae’r Bennod hon yn egluro ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer gorfodi rheoleiddiol, sut rydym yn disgwyl mynd ati i orfodi o dan y Ddeddf, ac mae’n cyflwyno ein Canllawiau Gorfodi Diogelwch Ar-lein.

## Beth rydym yn ei gynnig?

Mae’r Ddeddf yn rhoi amrywiaeth o bwerau gorfodi i Ofcom ac mae’n mynnu ein bod yn cyhoeddi canllawiau ar sut byddwn yn eu defnyddio. Rydym yn ymgynghori ynghylch Canllawiau Gorfodi Diogelwch Ar-lein drafft sy’n nodi sut byddwn fel arfer yn mynd ati i orfodi o dan y Ddeddf. Mae’r dull gweithredu hwn wedi cael ei lywio gan ein profiad a’n hanes o orfodi mewn sectorau eraill sy’n cael eu rheoleiddio gennym.

Mae’n bosibl y byddwn yn penderfynu cymryd camau gorfodi er budd dinasyddion a defnyddwyr, er enghraifft i sicrhau cydymffurfiaeth, atal drwgweithredu yn y dyfodol, amddiffyn defnyddwyr rhag niwed, a dal drwgweithredwyr i gyfrif. Os byddwn yn credu ei bod yn briodol defnyddio ein pwerau gorfodi statudol o dan y Ddeddf, byddwn yn cynnal ymchwiliad i achosion posibl o dorri'r Ddeddf gan ddilyn y prosesau a nodir yn y Canllawiau Gorfodi Diogelwch Ar-lein drafft. Gall hyn olygu y byddwn yn cyhoeddi penderfyniad ynghylch a oes achos o dorri rheoliadau wedi digwydd ai peidio, ac yn gosod cosbau ariannol a sancsiynau eraill.

Mae’r Ddeddf yn nodi pa rai o’r dyletswyddau ar wasanaethau sy’n cael eu rheoleiddio ac sy’n destun camau gorfodi gan Ofcom. Cyn gynted ag y daw dyletswydd orfodadwy i rym, caiff Ofcom ddewis defnyddio’r pwerau gorfodi perthnasol a ddarperir yn y Ddeddf yn erbyn unrhyw wasanaeth sy’n methu â chydymffurfio.

Daeth rhai o’r dyletswyddau, fel y ddyletswydd i gydymffurfio â hysbysiadau gwybodaeth, i rym ar adeg pasio’r Ddeddf. Ni fydd dyletswyddau gorfodadwy eraill yn dod i rym nes bydd Ofcom wedi cwblhau’r Codau Ymarfer neu ganllawiau cyfatebol perthnasol mewn perthynas â’r dyletswyddau hynny, neu nes bydd is-ddeddfwriaeth wedi cael ei phasio.

Rydym yn disgwyl i wasanaethau gymryd camau i gydymffurfio â’r dyletswyddau cyn gynted ag y byddant yn dod i rym. Ar gyfer rhai dyletswyddau, byddwn yn disgwyl i wasanaethau gydymffurfio’n llwyr ar unwaith. Er enghraifft, y ddyletswydd i gydymffurfio â hysbysiadau gwybodaeth, neu’r dyletswyddau sy’n ymwneud ag asesiadau risg neu asesiadau mynediad plant sydd eisoes wedi’u cynnwys mewn amserlenni statudol ar gyfer cydymffurfio ac sydd wedi’u nodi yn y Ddeddf.

Pan fydd y dyletswyddau diogelwch plant a chynnwys anghyfreithlon yn dod i rym (ar ôl i Godau Ymarfer gael eu cyhoeddi), rydym yn cydnabod y gallai gymryd peth amser i wasanaethau roi’r holl fesurau lliniaru angenrheidiol ar waith. Er enghraifft, mae’n bosibl y bydd yn rhesymol i wasanaethau ganolbwyntio ymdrechion cynnar ar sefydlu’r mesurau lliniaru sydd fwyaf tebygol o amddiffyn defnyddwyr rhag y niwed mwyaf difrifol, neu ar fesurau lliniaru sy’n gymharol gyflym neu syml i’w rhoi ar waith.

Byddwn yn defnyddio dull rhesymol a chymesur wrth arfer ein pwerau gorfodi, yn unol â’n dull gweithredu cyffredinol ar gyfer gorfodi a chan gydnabod yr heriau sy’n wynebu gwasanaethau wrth iddynt addasu i’w dyletswyddau newydd. Ar gyfer y dyletswyddau cynnwys anghyfreithlon a diogelwch plant, byddem yn disgwyl rhoi blaenoriaeth yng nghamau cynnar iawn y drefn i achosion difrifol yn unig o dorri’r rheolau, er mwyn rhoi cyfle rhesymol i wasanaethau ddod i gydymffurfio. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys lle mae’n ymddangos bod risg sylweddol iawn o niwed difrifol a pharhaus i ddefnyddwyr y DU, ac i blant yn benodol. Er y byddwn yn ystyried yr hyn sy’n rhesymol fesul achos, dylai pob gwasanaeth ddisgwyl cydymffurfio’n llawn o fewn chwe mis ar ôl i’r ddyletswydd ddiogelwch berthnasol ddod i rym.

### Pam rydym yn cynnig hyn?

Mae'r Ddeddf yn rhoi amrywiaeth o bwerau gorfodi i Ofcom ac mae'n mynnu ein bod yn cyhoeddi canllawiau ar sut byddwn yn eu defnyddio.

### Pa fewnbwn rydym eisiau ei gael gan randdeiliaid?

- Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein Canllawiau Gorfodi Diogelwch Ar-lein drafft?

## 30. Goruchwyliaeth

### Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Mae'r bennod hon yn nodi ein dull o oruchwylio is-set fach o'r gwasanaethau uchaf eu cyrraedd neu'r rhai â'r risg fwyaf o fewn cwmpas y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Bydd goruchwyliaeth yn helpu i sicrhau bod gan y gwasanaethau hyn systemau a phrosesau priodol i sicrhau'r canlyniadau allweddol a fwriedir gan y Ddeddf i wneud bywyd yn fwy diogel ar-lein i bobl ledled y DU.